



Bygwth dyfodol ein llyfrgelloedd lleol

A hithau'n dymor ewyllys da doedd y newyddion a glywodd trigolion ardal Deiniolen a Llanberis fel roedd yr "Eco" yn cael ei anfon i'w wely, ddim yn debygol o godi calon. Mae pawb bellach yn sylweddoli fod toriadau llym Llywodraeth Llundain yn treiddio i bob rhan o fywyd, ac y mae Cyngor Gwynedd, fel pob cyngor lleol arall, yn teimlo iâs y brathiadau. Dyna un o'r rhesymau pam fod angen chwilio am arbedion ariannol sylweddol.

Un o'r ystyriaethau ar sut i arbed arian yw cysidro dyfodol pob llyfrgell yng Ngwynedd sydd ar agor am ugain awr neu lai bob wythnos. Mae dwy o'r llyfrgelloedd rheini ym mro'r "Eco", sef Deiniolen a Llanberis – yr unig ddwy lyfrgell o fewn y fro. Byddai

colli'r gwasanaeth sefydlog hwn o fewn dau bentref yn golled sylweddol i'r cymunedau. Byddai'n amddifadu'r oedrannus a'r ieuenctid o adnodd addysgol, diwylliannol ac adloniadol sydd o fewn cyrraedd hwylus. Pa mor hwylus fyddai argaeledd gwasanaeth o'r fath unwaith y byddai'r llyfrgell leol yn peidio a bod? Mae'n ymddangos mai diwylliant sy'n dioddef gyntaf bob tro y ceir son am doriadau.

Dichon y cawn wybod mwy am yr ystyriaethau hyn yn y flwyddyn newydd, boed hi'n flwyddyn newydd dda ai peidio i gwsmeriaid a staff llyfrgelloedd Deiniolen a Llanberis.

Rhifyn	Copi i law	Bwndelu	Ble
Chwefror	Ionawr 18	Ionawr 30	Waunfawr
Mawrth	Chwefror 15	Chwefror 27	Llanrug

RHIF 428 Nadolig 2014

Argraffwyd gan
Wasg Dwyfor
Penygroes 01286 881911

SWYDDOGION A GOHEBWYR

**Straeon ac erthyglau
ar e-bost i
Dafydd Whiteside Thomas
Bron y Nant, Llanrug
01286 673515
ecorwyddfa@gmail.com**

**CADEIRYDD
Y PWYLLGOR GWAITH**
Geraint Elis

GOLYGYDD CHWARAEON
Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel.
(01248) 670115

FFOTOGRAFFWR
Gwynnaf Hughes, Glasgoed,
Llanrug (238495)
glasgoed@hotmail.com

TREFNYDD HYSBYSEBION
Eifion Roberts, Swŷn-y-Gwynt,
Llanberis (870740)
eifionroberts132@btinternet.com

TREFNYDD ARIANNOL
Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (01286 674839)

TREFNYDD GWERTHIANT POST
Olwen Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (01286 674839)

TREFNYDD BWNDELU
Marian Jones, Minalt, 7 Bro Elidir,
Dinorwig (870292)

**GOHEBWYR PENTREFI
DEINIOLEN:** Nia Gruffudd (872133)

BETHEL: Geraint Elis, Cilgeran
(01248) 670726

BRYNREFAIL: Mrs Lowri Prys Roberts,
Godre'r Coed (870580)

CAEATHRO: Rhiannon Roberts,
Cefn Rhos Isaf, Penrhos.
rhiannonmai@btinternet.com

CEUNANT: Trystan a Sioned Larsen,
Bodafon, Ceunant (650799)

CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands,
Glanrafon (872275)

DINORWIG: Marian Jones, Minalt,
7 Bro Elidir, Dinorwig (870292)

LLANBERIS: Gwyneth ac Eifion
Roberts, Swŷn-y-Gwynt (870740)

LLANRUG: Eryl Roberts, 3 Bryn
Moelyn (675384)

NANT PERIS: Kate Pritchard (872331)
neu econantperis@hotmail.com

PENISARWAUN:
ecopenisarwaun@hotmail.co.uk

WAUNFAWR: Mrs Nan Roberts,
Pantafon, Waunfawr (650570)

gosodwyd gan

grid 76
dylunio graffeg
07766956673

GAIR GANY GOLYGYDD.

Ymddiheuriadau oherwydd i'r "Eco" gyrraedd yn hwyr y mis diwethaf. Ymddiheuriadau arbennig i'r Trefnydd Bwndelu ac i bawb sy'n gyfrifol am gasglu'r bwndeli i'w danfon i'r gwahanol bentrefi. Yn od iawn, ni dderbyniais unrhyw alwad yn holi pam fod yr "Eco" yn hwyr. Mae'n amlwg fod pawb yn rhy brysur yn paratoi at y Nadolig!

Ac o son am y Nadolig, dyma gyfle i ddiolch i bawb; yn swyddogion, gohebwy, dosbarthwyr, cyfranwyr, ffotograffwyr, darllenwyr a hysbysebwy am ddal ati i gefnogi'r papur. Cofiwch mai eich papur bro chi ydi'r "Eco", felly beth am ei gynnig yn anrheg Nadolig i rai o'ch cymdogion neu eich cyd-bentrefwyr? Dyna i chi anrheg Nadolig i'ch cadw'n ddiddig am flwyddyn, a hynny am ddim ond chwephunt!

Mwynhewch Dymor y Gwyliau a boed i chwi Flwyddyn Newydd Dda yn 2015. Cofiwch mai rhifyn Chwefror fydd y nesaf o'r Wasg, ac unwaith eto eleni, apeliar ar i chi beidio anfon lluniau Nadoligaidd i'w cynnwys yn y rhifyn hwnnw. Mae hyd yn oed yr hen Sion Corn angen gwyliau haeddiannol!

LLYTHYRAU

Neuadd Goffa Bethel

Annwyl Olygydd,
Hoffwn gymryd y cyfle i ymateb i rai o'r sylwadau gan Gyngor Llanddeiniolen ynglŷn â Neuadd Goffa Bethel. Gan fy mod i'n cymryd rhan mewn nifer o bwyllgorau a gweithgareddau yn y pentref, yn naturiol gyda dadleuon gwahanol mewn pwyllgorau, mae'n her ar adegau gwneud penderfyniadau sy'n cynrychioli llais y gymuned, ac mae y Neuadd Goffa wrth i ni dderbyn grant enfawr gan y Llywodraeth yn esiampl o hynny wrth i ni drio arwain y ffordd a gwneud penderfyniad anodd i drio gwneud y gorau allan o'r cyfle unigryw o adeilad newydd, ac er budd ei ddyfodol.

Yn gyntaf, hoffwn ymateb i sylwadau ynglŷn â mantolen y Neuadd Goffa. Yn gryno iawn, gan bod y Neuadd Goffa wedi derbyn cannoedd ar ben miloedd o arian drwy arian grant cyfalaf cyhoeddus mae rhaid, yn unol â pholisiau a rheoliadau comisiwn elusennau, ofyn i gyfrifydd arwyddo'r cyllid. Mae gennym tan Mawrth 2015 i'w wneud hynny, ond dwi wedi gofyn i gyfrifydd lleol gael golwg ar y gwaith papur yn gynharach. Eisoes, mae'r Neuadd Goffa wedi derbyn siec gan Gyngor Llanddeiniolen o £300.00 – hoffwn ddiolch o galon i'r Cyngor am y rhodd eto eleni, mae pob ceiniog yn helpu i rhedeg Neuadd mor boblogaidd.

Yn ail, hoffwn ymateb i'r sylw ynglŷn â ymddiriedolwyr y Neuadd Goffa. Yn anffodus

iawn, pan ddechreuais y broses yn 2012 i drio darganfod arian i wella'r Neuadd Goffa, cefais her i ddarganfod unrhyw waith papur sy'n ymwneud â pholisiau cyfansoddiadol a rheoliadau cydraddoldeb y Neuadd. Felly er mwyn i mi allu rhoi cais llawn ymlaen am arian, roeddwn i'n gorfod ethol ymddiriedolwyr newydd. Cawsom dri aelod o'r Pwyllgor i rhoi eu henwau ymlaen i fod yn ymddiriedolwyr fel ymdrech i gefnogi'r cais. Yn dilyn llwyddiant y grant, roedd dau o'r ymddiriedolwyr wedi ymddiswyddo. Dwi'n deall yn llwyr bod elfennau o gyfrifoldeb ymddiriedolwr yn rhwystro rhai wrth rhoi enwau ymlaen. Dwi'n hynod o gefnogol i unrhyw un o'r gymuned roi cais ymlaen i fod yn ymddiriedolwr y Neuadd Goffa.

Yn drydydd, hoffwn godi sylw ynglŷn â chais Pwyllgor y Neuadd am drwydded gan yr awdurdod lleol i werthu alcohol. Mae'n bwysig fy mod i'n crybwyll yn gyntaf fy mod i'n ymwybodol bod nifer o'r gymuned wedi codi pryder gyda'r cais yma, a dwi'n deall a gwerthfawrogi hynny yn llwyr. Yn ystod diwedd 2013 ac yn sicr 2014, mae defnydd y Neuadd wedi dyblu a bron dreblu, sydd yn arwydd calonogol buan bod y grant a'r gwaith yn llwyddiant. Ceir nifer o fudiadau ac unigolion yn defnyddio'r Neuadd hon, gyda rhai grwpiau yn gofyn am ddefnyddio'r Neuadd i gynnal nosweithiau codi arian wrth gynnwys gwerthu alcohol. Mae nifer o nosweithiau

RHODDION

Ariennir yn rhannol gan Llywodraeth Cymru

£20: Di-enw; Teulu Pen y Gaer, Penisarwaun; Myrddyn ac Anne Pritchard, 1 Ffordd Padarn, Llanberis; Beth a Fred Owen, Garreg Wen, Ffordd Tŷ Du, Llanberis.

£10: John ac Elizabeth Evans, Pen Parc, Bethel; Mrs Ann Owen, Deiniolen; Mrs A.B. Griffiths, 5 Maes Gwylfa, Deiniolen; Mrs Elizabeth Williams, Deiniolen; Louie Pritchard, Dôl Eilian, Llanberis; Nan Owen, 8 Rhos Efrog, Llanberis; Teulu Mona Wyn Jones, 17 Dôl Eilian, Llanberis.

£5: Gwynfor ac Ellen Ellis, Drws y Coed, Bethel.

fel hyn wedi cymryd lle yn ystod oes y Neuadd newydd, sydd wedi gallu cefnogi ac ariannu nifer o weithgareddau yn y pentref – Gŵyl y pentref yn un wrth gwrs. Dwi ar ddeall bod y cais wedi derbyn ychydig o bryderon yn lleol, a bydd y cais yn cael ei drafod yn fuan gan Gyngor Gwynedd. Beth bynnag fydd canlyniad y cais hwn, dwi'n meddwl ei fod yn bwysig i Bwyllgor y Neuadd grybwyll mai nid rhyw dafarn newydd fydd hon. Mae costau ar gyfer ceisio am drwydded dros dro bob tro yn hynod o ddrud, byddai derbyn y drwydded hon yn osgoi rhoi cais ymlaen pob tro bydd digwyddiad o'r fath yn y Neuadd. Mae sicrhad gennyf i'r rhai sydd yn pryderu, nad oes modd i Bwyllgor y Neuadd ddefnyddio'r drwydded hon yn wythnosol, nac yn fisol chwaith, dim ond ar rai adegau pan y bydd angen. Dwi'n agored iawn i drafod y mater yma, neu unrhyw bryder arall sy'n codi pryder ynglŷn â'r Neuadd a dyfodol y Neuadd.

Yn bedwerydd, mae Pwyllgor y Neuadd yn galw allan i'r gymuned am gefnogaeth. Rydym yn cynnal nosweithiau a dyddiau i godi arian at ddyfodol y Neuadd ac mae croeso mawr i chi ein helpu ni unrhyw ffordd y gallwch, dim ond codi ffon arna i. Eto, dwi'n agored iawn i drafod unrhyw agwedd o'r Neuadd, unrhyw amser.

Diolch yn fawr
Sion Jones – Cynghorydd Bethel a Llanddeiniolen
Cynghorydd Sir - Bethel a Llanddeiniolen

Clwb 300 Enillwyr y Clwb 300 am fis Tachwedd oedd: £30: Mrs Alma Jones, Tan y Fron; £20: Dr Huw Roberts, Culfor, Ffordd Bangor, Caernarfon; £10: Ms Myfanwy Roberts, Clyd y Coed.

Croesawu Gŵyl y Nadolig Nos Fercher, Rhagfyr 24, sef Noswyl y Nadolig am 4.30 y pnawn estynnir gwahoddiad i ni ddod i Eglwys y Waun i'r Gwasanaeth Nadolig. Bydd y gwasanaeth o gân a darlleniadau yng ngofal talentau y pentref. Gwneir casgliad tuag at Apêl Tŷ Gobaith. Mae croeso cynnes i bawb ymuno yn naws y Nadolig.

Adref o'r Ysbyty Croesawn Beryl Lloyd Jones, Dôl y Coed, Stad Bod Hyfryd; Myra Turner, Collfryn a Janette Burdon, Stad Dôl Erddi, adref o'r ysbyty wedi iddynt dderbyn triniaeth. Anfonwn ein cofion cynnes a phob dymuniad da am wellhad buan i'r tair ohonoch.

Anfon Cyfarchion Anfonwn gofion cynnes at yr rhai sy'n derbyn gofal mewn cartrefi preswyl. Derbyniwch ein cyfarchion gorau dros Wyl y Nadolig a'r flwyddyn newydd.

Dathlu Pen-blwydd Arbennig Llongyfarchiadau i Angharad Jones, Bryn Gwyn a Gwen Townsend, Stad Llŷ y Waun, y ddwy yn cyrraedd eu deunaw oed yn ystod y mis. Dymuniadau gorau i chi i'r dyfodol a mwynhewch ddathlu y pen-blwydd arbennig.

Cyfarchion y Nadolig Dymunwn bob hapusrwydd dros Wyl y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd i bawb, gan gofio'n arbennig am y rhai sy'n wael ac yn gaeth i'w cartref.

NADOLIG 2014

Ar Wyl, llwm yw'r gorwelion, - mae rhyfel
mor afiach, mae'r tlodion
yn groes ar hyd blwyddyn gron;
ar daith i'n byd ddaw'r doethion?

Mae gwin yng nghrym y Geni, - uwch ei flas
clywch floedd yn cyhoeddi
daw Dduw Nêr i'n dyddiau ni
a'i waed dros fyd o dlodi.

Richard Ll Jones.

Ymweliad

I lety'r ych daw'r Goruchel, angerdd
yr engyl o'r gorwel
a gŵr i weld y wyrth gél
yno'r Iesu mor isel.

Norman Closs

Nadolig Llawn a Blwyddyn Newydd dda i chwi oll
oddi wrth bawb yn siop



HAIRLINES
Stryd Fawr, Llanberis
Ffôn: 870328



Yn ystod y mis a aeth heibio...

• Aeth Dydd Gwener Gwario Gwirion heibio (Dydd Gwener Du a rhoi iddo ei enw 'swyddogol'). Amcangyfrifwyd fod 1.7 biliwn o bunnau wedi eu gwario, a chafwyd enghraifft o gwsmeriaid yn cwffio dros deledu mewn archfarchnad ym Mangor... ..

• Dilynwyd y don gyntaf o wario gan un arall ar Ddydd Llun Cyber; beth bynnag oedd hwnnw....

• ... a daeth Newyddion Da o Lawenydd Mawr i Gaernarfon ar ffurf Lori Fawr Goch yn rhannu caniau Coca-Cola. Dwn i ddim os oedd angylion, bugeiliaid na doethion ar y Maes, ond roedd digonedd o ddoethinebu. Ac os gellir credu'r Daily Post, dyfynnwyd un o swyddogion Cyngor y dref yn dweud "It's what Christmas is all about. You know it's only just round the corner when the Coca-Cola truck comes." Paratowch am siom enfawr y flwyddyn nesa. Os na ddaw'r Lori Fawr Goch yn ôl, fydd yna ddim 'Dolig.

• Brawychwyd Llywodraethwyr, cymorthyddion, athrawon a phennaethiaid ysgolion cynradd Gwynedd gan fygythiad o doriadau sylweddol i'w cyllideb, gyda rhai o'r ysgolion mwyaf yn wynebu toriadau o hyd at £80,000 dros dair blynedd. Ond cyfaddefwyd mai 'syms-cefn-amlen' oedd yn gyfrifol am y braw hollol ddi-angen. Mae Cymdeithas Llywodraethwyr Gwynedd wedi penderfynu ysgrifennu at Brif Weinidog Cymru i gael sicrwydd ynglŷn â datganiad diweddar y Llywodraeth y byddid yn gwarchod cyllidebau ysgolion.

• Daeth newidiadau i Ddeddf Yfed a Gyrru yn yr Alban. Bydd gyrrwyr yno'n cael eu cosbi os oes mwy na 50mg o alcohol mewn 100ml o waed. Yn fras, mae'n golygu mai peint o gwrw neu wydraid mawr o win y gellir ei yfed cyn mentro tu ôl i lyw'r car. Mae'r Alban yn cydymffurfio bellach â'r mwyafrif o wledydd Ewrop. Mae ymgyrchwyr yn galw am newid tebyg yn y Ddeddf yng Nghymru hefyd.

• Y mis diwethaf cyhoeddwyd adroddiad gan 'Caru ein Llyn' yn ymfalchio yng nglendid dwr Llyn Padarn yn dilyn archwiliad gan Cyfoeth Naturiol Cymru. Y mis hwn cyhoeddwn sylwadau'r Gymdeithas Bysgota leol ar y llygredd (gan gynnwys carthion dynol) a ddarganfuwyd yn afon Nant Peris. Roedd swyddogion Dwr Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru yn honni iddynt hwy fethu darganfod unrhyw dystiolaeth o'r fath lygredd nes cael eu perswadio i ail-ymweld a'r safle. Penderfynwch chi pa fath o dystiolaeth sydd i'w gweld i'r byd a'r betws yn y lluniau ar dudalen 18. Yn dilyn y llanastr ar lethrau Moel Eilio yn ystod yr wythnosau diwethaf a gwadu'r llygredd yn afon Nant Peris y mis hwn, teg gofyn pa fath o warchodaeth amgylcheddol sy'n rhan o agenda Cyfoeth Naturiol Cymru.

• Llosgwyd a difrodwyd nifer o gerbydau yn libart Garej Gwalia, Caeathro, a hynny yn ystod oriau mân y bore. Mae'r heddlu'n edrych ar y digwyddiad fel achos o losgi bwriadol, ac yn apelio am unrhyw dystiolaeth all fod o gymorth i ddarganfod y drwgweithredwyr.

• Gwelwyd Bws Mawr Melyn ar y ffordd rhwng Cwm y Glo a Llanberis. Methodd holl ohebwy'r yr "Eco" a darganfod beth oedd ei arwyddocad, ac a fyddai Newyddion Da yn dod i'r ardal yn ei sgil.

LLYGAD YR HAUL

Caffi/Deli

STRYD FAWR LLANBERIS
Ffon-01286 870814

NADOLIG LLAWEN a Blwyddyn Newydd Dda
i'n holl gwsmeriaid

Pencampwyr Gogledd Cymru.



Mae bandiau pres wedi chwarae rhan amlwg ym mywyd diwylliannol bro'r "Eco" ers dros ganrif a hanner, a'r safon wastad wedi bod yn uchel. Cadwyd y traddodiad hwnnw yn fyw ac yn iach yn ystod y mis diwethaf, oherwydd Band Arian Llanrug yw Pencampwyr Gogledd Cymru eleni. Yng nghystadleuaeth Bandiau Pres Gogledd Cymru a gynhaliwyd yn ddiweddar yn Rhuthun, daeth y band hŷn yn fuddugol yn yr Adran Agored. Dan arweiniad Paul Hughes enillwyd ar yr Ymdeithgan ac ar y Darn Prawf.

Llwyddiant dau frawd...

Ond doedd y Band Iau ddim am i'r Band Hŷn gael yr holl sylw 'chwaith. Dan arweiniad Dyfrig Owen, ac yn cystadlu yn Adran 6, daethant yn ail ar yr emyn-dôn ac ail ar y Darn Prawf. A brawd yr arweinydd, Gerallt, yn chwarae'r iwoffoniwm, enillodd wobr yr unawdydd gorau yn yr adran.

Bydd y ddau fand yn brysur dros gyfnod y Nadolig gyda chyngerdd yng Nghaernarfon a nosweithiau carolau yng Nghaeathro a Llanrug.



Diwrnod Mawr Yankier.



Dair blynedd yn ôl symudodd Yankier Pijeira Perez i Lanrug o bentref San Antonio de Cabezas yng ngwlad Ciwba ar ôl iddo briodi â Lowri Williams, Cartref. Cafodd ei dderbyn i'n cymuned yn sydyn iawn oherwydd ei natur hawddgar a'i barodrwydd i fwrw mewn i fywyd y pentref. Dechreuodd fynychu gwersi Cymraeg

yn fuan ar ôl cyrraedd ac mae safon dda ei sgwrs yn tystio i'r hyn sy'n bosibl gydag awydd a phenderfyniad - rhaid cofio fod Yankier hefyd wedi dysgu Saesneg law yn llaw â dysgu Cymraeg. Mae Yankier yn gweithio yn yr adran fferylliaeth yn Ysbyty Gwynedd, ac yn siŵr o fod yn cael cyfleon dyddiol i ymarfer ei Gymraeg a'i Saesneg, heb sôn am weithiau ei iaith gyntaf, Sbaeneg.

Yn y llun mae Yankier efo Lowri a'u mab Luca, sy'n un oed, a braf ar ddyddiau rygbi rhyngwladol yw gweld tad a mab yn eu crysau coch Cymru. Nid yw Ciwba wedi cofleidio rygbi eto, ond tybed be fyddai ymateb Yankier a Luca (a lliwiau eu crysau!) petai gŵr talentog Ciwba rhyw ddydd yn dod wyneb yn wyneb â George North a'r criw?

Roedd dydd Gwener, 28ain o Dachwedd, yn ddiwrnod mawr i Yankier a'i deulu. Dair blynedd ers cael ei groesawu gan Gymru, cafodd ei dderbyn yn ddinesydd Prydeinig mewn seremoni yn siambr Cyngor Gwynedd yng Nghaernarfon. Hoffai Eco'r Wyddfa ei longyfarch ar ei dair blynedd yn ein plith- tydi'n braf bod yn rhyngwladol!

Canlyniadau Eisteddfod Pentrefi Llanrug a Chwmyglo 2014.



Canlyniadau Llwyfan: Unawd Dosbarth Derbyn: 1af Eban; 2il Owain; 3ydd Llio; Llefaru Unigol Dosbarth Derbyn: 1af Eban; 2il Owain; Cyd 3ydd Gethin a Lliwen; Unawd Blwyddyn 1 a 2: 1af Betsan; 2il Ynyr; 3ydd Guto; Llefaru Unigol Blwyddyn 1 a 2: 1af Betsan; 2il Ynyr; 3ydd Emily; Côr Dosbarth Meithrin: 1af Côr y Dosbarth Meithrin; Côr Babanod hyd at flwyddyn 2: 1af Côr Babanod Llanrug; Unawd Blwyddyn 3 a 4: 1af Erin Gibbard; 2il Buddug; 3ydd Beca Mair; Llefaru Unigol Blwyddyn 3 a 4: 1af Erin Awel; 2il Luned; 3ydd Beca Fôn; Unawd Blwyddyn 5 a 6: 1af Nel; Cyd 2il Nanw a Sara; Llefaru Unigol Blwyddyn 5 a 6: 1af Gwernan; 2il Mared; 3ydd Enlli; Unawd Offerynnol Cynradd: Pres: 1af Ben; Chwyth: 1af Nanw; 2il Buddug; 3ydd Mared; Piano: 1af Beca; 2il Nel; 3ydd Mared; Telyn: 1af Erin; Parti Dawnsio Disgo Cynradd: 1af Parti Elin; 2il Parti Beth; 3ydd Parti Llio; Parti Dawns Werin Cynradd: 1af Parti Coch; 2il Parti Gwyrdd; 3ydd Parti Gwyn; Parti Llefaru Cynradd: 1af Enillwyr y Gystadleuaeth; Cyd 2il Parti Sleepover a Pharti Ysgol Od; 3ydd Parti Not So Cool; Parti / Côr Unsain Cynradd Blynnyddoedd 3 – 6: 1af Côr y Cwl Dŵds; Llefaru Unigol Uwchradd: Bl 7-9: 1af Leisa; Bl 10-13: 1af Math; 2il Beca; Unawd Uwchradd: Bl 7-9: Cyd 1af Miriam a Leisa; 2il Osian; Bl 10-13: 1af Gwern; 2il Lleucu; Unawd Offerynnol Uwchradd: Piano: 1af Math; 2il Heledd; Grŵp Dawnsio Disgo Uwchradd: 1af Grŵp Sophie; Sgets Uwchradd: 1af Pasport Control; 2il Y Cyngerdd; Parti Llefaru Uwchradd: Cyd 1af Parti Rhydian ac Y Lleill; Cân Ysgafn/Grŵp Pop Uwchradd: 1af Candelas Llanrug; Parti / Côr Uwchradd / Agored: 1af Côr Ieuenctid Llanrug.

Enillwyr y Tlysau Llwyfan: Cadair Lowri i Enillydd yr Unawd ym Mlynnyddoedd 1 a 2: Betsan Ginsberg; Cwpan W. Park Jones a Rhodd o £10 am y Cyflwyniad Llefaru / Llafar Gorau (Cynradd): Gwernan Brooks; Tlws Bwlchgrwnog a Rhodd o £10 am y Perfformiad Cerddorol Cynradd Gorau: Nanw Llwyd; Tlws Er Cof am Eddie a Moreen Lennon a Rhodd o £10 am y Perfformiad Cerddorol Uwchradd Gorau: Math Roberts; Rhodd o £10 gan Haf Roberts i'r Cyflwyniad Llefaru / Llafar Gorau (Uwchradd): Leisa Gwenllian; Cwpan y Perfformiwr a Rhodd o £10: Hannah Tulliver.

Canlyniadau Llen:

Blwyddyn 3 a 4: 1af Ceri Hickley; 2il Erin A; 3ydd Twm Brookes.

Blwyddyn 5 a 6: 1af Nanw Llwyd; 2il Ela Jones; 3ydd Nel Jones.

Tlws y Llenor Cynradd (Blynnyddoedd 3-6): 1af Nanw Llwyd; 2il Ela Jones; 3ydd Nel Jones.

Blwyddyn 7: 1af Siwan Thomas; 2il Heledd Richards; 3ydd Lois Roberts.

Blwyddyn 8 a 9: 1af Leisa Gwenllian; 2il Miriam Catrin; 3ydd Owain Cynfab.

Tlws yr Ifanc (Blynnyddoedd 7-9): 1af Leisa Gwenllian; 2il Miriam Catrin; 3ydd Owain Cynfab.

Blwyddyn 10 ac 11: 1af Math Roberts; 2il Ceri Fflur Griffith; 3ydd Lleucu Brookes.

Blwyddyn 12 a 13: 1af Nia Williams; 2il Lowri Owen; 3ydd Elain Morris Roberts.

Cystadleuaeth Y Gadair: 1af Math Roberts; 2il Nia Williams; 3ydd Ceri Fflur Griffith.

Limrig ar y Noson: Enillydd – Luned Gwilym.

Straeon buddugol ar tudalen 12, 13 ac 14

NODDWYR EISTEDDFOD PENTREFI LLANRUG A CHWMY GLO.

Hoffai'r Pwyllgor ddiolch i'r canlynol am gefnogi'r Eisteddfod eleni. Mae'r cyfraniadau ariannol sy'n dod i law yn flynyddol yn hollbwysig i barhad yr Eisteddfod ac yn sicrhau bod ieuenctid ein cymuned yn cael mwynhau cymryd rhan yn y cystadlaethau llwyfan, llenyddol a Chelf a Chrefft.

Cwmni Arvonja; Siop Trin Gwallt a Harddwch Elaine's; Pat ac Edgar, Swyddfa'r Post Llanrug; Bryn ac Angela, Siop Gig Wavells; Richard Humphreys, Oriel Cwm; Merched y Wawr – Cangen Llanrug; Cyngor Cymuned Llanrug.

Nadolig Llawn a Blwyddyn Newydd Dda
i'n holl gwsmeriaid ac i bawb ym mro
Eco'r Wyddfa oddi wrth bawb ym
musnes llefrith

**EIRWYN
WILLIAMS
LLWYNCOED
CWM-Y-GLO**

Ffôn: (01286) 870563

Diolch am eich cefnogaeth
trwy'r flwyddyn



**AM BETROL, DIESEL, OLEW ac
AMRYFAL ANRHEGION MODURO
PAPURAU NEWYDD A
PAYPOINT**



**GORSAF BETROL
LONDON GARAGE
CWM-Y-GLO**



**NADOLIG LLAWEN
A BLWYDDYN DDA I BAWB**

Ffôn-Llanberis 872046



Cynhaliwyd Ffair Nadolig lwyddiannus yn yr Ysgol Gynradd. Gyda diolch i bawb am eu cefnogaeth. Enillwyr y raffl oedd David a Mairead. Yma, dangosir hwy'n derbyn eu gwobr o i-pad gan Margaret Williams yn swyddfa'r ysgol.

Cyfarchion y Nadolig

Dymuniadau gorau am Nadolig Dedwydd a Blwyddyn Newydd Dda i bawb yn yr ardal. Diolch yn fawr iawn am gefnogaeth a chyfraniadau am y flwyddyn.

Hafan Elan Bydd trigolion **Hafan Elan** a'u ffrindiau yn cael cinio Nadolig ar y 9fed o Ragfyr, wedi ei ddarparu fel arfer gan staff y gegin, Ysgol Brynrefail. Dymunant ddiolch yn enfawr am y cinio arbennig a ddarparwyd ar eu cyfer bob dydd Mawrth yn ystod tymor yr ysgol. Ar ôl y bwyd bydd Mair Huws ac aelodau o Gôr Cofnod Caernarfon yn eu diddori a chanu carolau gyda'i gilydd. Dydd Iau, yr 11eg, byddant yn cael eu cludo am de prynhawn i Fron Goch.

Nos Lun, 22ain, bydd Bwffe Nadolig iddynt, wedi ei ddarparu gan Bessie Costello, y warden, a'i chriw bach o wirfoddolwyr. Bydd y 'Soggy bottom boys' yno yn eu diddori unwaith eto.

Bob bore dydd Gwener, mae 'cadw'n heini o'r gadair' yn cael ei gynnal yno o 10.00 – 11.00. Mae croeso mawr i unrhyw un ymuno, £2 yw'r gost ac mae yn

addas i bawb.

Dymunir diolch o galon i Bessie Costello am ei holl waith yn gofalu am y trigolion gydol y flwyddyn ac am yr holl drefniadau mae yn gyfrifol amdanynt.

Diolch Hoffai Cyngor Cymuned Llanrug ddiolch o galon i Mair a Gwyndaf Huws, Hafan, am y rhodd garedig o goeden Nadolig i'r pentref. Fel y gwelwch, mae'r goeden fach wedi ymgartrefu yn ei chartref newydd ar y sgwâr ac mae'n edrych yn hardd iawn yn ei gwisg newydd.

Diolch yn fawr iawn i chi, a Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i holl drigolion Llanrug a'r cyffiniau.

Pen-blwydd Hapus Carwn ddymuno pen-blwydd hapus iawn i Mrs Eileen Williams, 10 Afon Rhos. Bydd yn dathlu ei 90 mlwydd oed ar ddydd Nadolig. Pob dymuniad da i chi, Eileen, a mwynhewch eich diwrnod arbennig iawn eleni.

Plaid Cymru Enillwyr Clwb Cant Rhagfyr: oedd 1. Mrs Pat Larsen, Penisarwaun; 2. Mrs Meirwen Lloyd, Afallon.



Cylch Meithrin Ar y 9fed o Dachwedd bu criw yr Ysgol Feithrin ar daith gerdded nodedig uwchlaw Dinorwig. Yn ffodus, er y cymylau duon, fe gadwodd y glaw i ffwrdd gan adael i'r plantos fwynhau cŵn poeth a diod cyn dechrau'r daith. Roedd pawb wedi mwynhau'r golygfeydd anhygoel o'r ardal. Diolch yn fawr iawn i staff yr Ysgol Feithrin am eu hamser ac, wrth gwrs, i'r plant a'u rhieni a gefnogodd yr achlysur.

—Trwsio ac Adnewyddu Dodrefn—

Wedi torri darn o ddodrefn?
Hoff gelfi wedi mynd i edrych yn drist?
Cysylltwch â ni i roi bywyd newydd i'ch trysor

Dennis & Julie Jones

01286 650255

DMM
CLIMB NOW WORK LATER

Nadolig
Llawen

A BLWYDDYN
NEWYDD DDA

Oddiwrth
BAWB yn

DMM
LLANBERIS

www.dmmwales.com

Capel y Rhos

Oedfaon Ionawr

4: Y Gweinidog, y Parch Marcus Wyn Robinson
Gweinyddir y Cymun yn yr oedfa

11: Dr Huw Tegid Roberts

18: Y Gweinidog

25: Y Parch W.R. Williams

Oherwydd salwch, mae nifer o'n haelodau ffyddlon yn methu mynychu'r oedfaon ar hyn o bryd. Anfonwn ein cofion cynhesaf atynt gan ddymuno iddynt Nadolig dedwydd a Blwyddyn Newydd Dda yn 2015.

Cymdeithas Lenyddol

John G. Williams oedd yn annerch yr aelodau y mis yma, ac yn dilyn croeso gan Lywydd y noson, chafwyd sgwrs hynod o ddiddorol gyda chymorth lluniau o'i gyfnod fel Tywysydd yn y Gemau Paraolympaidd yn Llundain ym 2012. Roedd yn un o 1,400 allan o tua 35,000 oedd wedi cael eu dewis i ymwneud â'r gwaith a fo oedd yn gyfrifol am dîm o 274 o athletwyr yr Unol Daleithiau. Roedd ei ddyletswyddau yn amrywio o ddydd i ddydd, sef didoli dillad i'r athletwyr, gofalu fod yr holl offer yn cael eu cadw'n ddiogel, hebrwng pobl pwysig o'r maes awyr ayyb. Gwelsom lun ohono yn cario'r faner o flaen tîm yr UDA cyn ei throsglwyddo i'r Seremoni Agoriadol. Yn sicr roedd wedi cael profiadau anhygoel yn ystod y cyfnod a theimlai yn freintiedig iawn ei fod wedi bod yn rhan o ddigwyddiad mor gyffrous. Geraint Elis dalodd y diolchiadau.

Bu'r aelodau yn dathlu 'Gŵyl y Geni' mewn cyfarfod o'r Gymdeithas y mis yma, a chroesawyd pawb gan Lywydd y noson, Rita Williams, hithau hefyd oedd

wedi trefnu'r digwyddiad. Roedd parti'r Boncathod o Ddyffryn Ogwen wedi dod draw a chafwyd eitemau o garolau, hen a newydd ganddynt. Yn ychwanegol cafwyd darlleniadau amrywiol gan nifer o'r aelodau, a phawb yn ymuno i ganu tair carol. Diolchodd Llywydd y Gymdeithas Dr. J. Elwyn Hughes i Rita am baratoi'r cyfan, i'r Boncathod ac i'r merched am baratoi'r lluniaeth, a chyn troi am adref bu i bawb fwynhau'r danteithion a chael cyfle i gymdeithasu. Bydd y cyfarfod nesaf nos Fawrth Ionawr yr 20fed. yn Festri Cysegr.

Ysgol Sul y Cysegr Bore Sul, Rhagfyr 21ain, am 10.00 bydd plant yr Ysgol Sul yn cyflwyno 'Stori'r Geni' gyda phob plentyn yn cymeryd rhan, a chyfle hefyd i'r gynulleidfa ymuno mewn nifer o garolau. Bydd y casgliad rhydd eleni yn cael ei gyflwyno i Dŷ Gobaith, Conwy. Yn dilyn y gwasanaeth bydd y plant yn mynd yn syth i'r Festri i fwynhau parti, wedi ei drefnu gan yr athrawon, gan obeithio y caiff y plant ymweliad gan Siôn Corn.

Clwb Bro Bethel Dathlu'r

Nadolig oedd hanes yr aelodau y mis yma a mwynhaodd 35 o'r aelodau ginio blasus iawn yn Mwyty Friars, Coleg Menai, Bangor. Wrth groesawu pawb ynghyd diolchodd y Llywydd, y Parchedig Marcus Wyn Robinson i Ann Ellis Williams ac Ivy Wright am yr holl drefniadau. Dymunwyd yn dda i Alice Jones, Bro Rhos, oedd ar fin teithio i Seland Newydd i ymweld â'i mhab a'i deulu, a rhannwyd gwybodaeth am Ffair Nadolig Age Cymru a'r Fforwm sydd i'w gynnal ym mis Ionawr. Roedd yr Ysgrifennydd wedi derbyn cyflenwad o lyfrynnau gan Age Cymru Caerdydd, yn rhoi gwybodaeth ar sut i gadw'n gynnes dros y gaeaf, a bu i bawb dderbyn copi, gyda diolch. Braff oedd gweld y myfyrwyr yn gweini mor broffesiynol a chwrtais. Dymuna'r aelodau Nadolig Llawen i bawb yn y pentref.

Capel y Cysegr Bydd plant yr Ysgol Sul yn cyflwyno Stori'r Geni yn y Gwasanaeth am 10.00 fore Sul Rhagfyr 21ain, a bydd te parti iddynt ar ddiwedd y gwasanaeth.

Ar ddydd Nadolig, am 10.00, cynhelir Oedfa Gymun i'r Ofalaeth a Chapeli lleol dan ofal y Gweinidog, y Parchedig Marcus Wyn Robinson. Yn ystod y gwasanaeth estynnir cyfle i bawb gyfrannu tuag at Apêl Nadolig Cymorth Cristnogol.

Llongyfarchiadau i Dewi Griffiths, (Llwyn Eithin gynt) ar ennill Tarian Harry Mortimer am y prif gornetydd gorau mewn cystadleuaeth i fandiau pres, sef 'Band in Concert' yn y Sage, Gateshead, yn ddiweddar. Mae'n aelod o Fand Tref Tredegar a daeth y band yn drydydd allan o 12 Band.

Llongyfarchiadau i Meleri ac Arwel, Llys Elena, ar enedigaeth Eila Mari, chwaer fach i Beca Fflur. Wyres i Gwynfor ac Ellen Ellis, Drws y Coed a Cliff Williams, Felinheli.

Dymuna John ac Elizabeth Evans, Pen Parc, Bethel Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'r teulu, ffrindiau a chymdogion. Gan ddiolch am bob caredigrwydd a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn.



Hywel Williams
Aelod Seneddol
Etholaeth Arfon

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AS mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag ef yn ei swyddfa yng Nghaernarfon neu ym Mangor

Swyddfa Etholaeth
8 Stryd y Castell Caernarfon LL55 1SE
01286-672076
neu
70 Stryd Fawr Bangor LL57 1NR
01248- 372948
williamshy@parliament.uk

CEIR CYMRU

Diolch am Gefnogaeth ein
Cwsmeriaid yn Eryri
dros **25** Mlynedd

gareth.w.jones@hotmail.co.uk
www.ceircymru.com

Bethel (B4366) Caernarfon Gwynedd LL55 1UN
01248-671770/670451

TM JONES

SEFYDLWYD DROS
20 MLYNEDD

SYNUD A CHADW

CLIRIO TAI A GAREJ (Unrhyw Bellter)
CLIRIO AR OL PROFEDIGAETH
Yswiriant Llawn Domestig a Masnachol

01248 430126 • 07786176866
thomasmeredydd@btinternet.com



Alun Ffred Jones
Aelod Cynulliad
Arfon

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AC mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag ef yn ei swyddfa yng Nghaernarfon neu ym Mangor

Swyddfa Etholaeth
8 Stryd y Castell Caernarfon LL55 1SE
01286-672076
neu
70 Stryd Fawr Bangor LL57 1NR
01248- 372948
alunfred.jones@cymru.gov.uk

Dyn y llygad barcud.

Yn y llyfr ffôn, fel Michael Owen, Bryn Beuno, Llanrug y caiff ei adnabod, ond i'w gydnabod ym mro'r "Eco" a thu hwnt, Meical Kent neu hyd yn oed Kent yw ei enw. Deillia'r enw, wrth gwrs, o fferm Kent, Pontrug, ble roedd ei dad yn gweithio, ac felly, roedd ffermio yn y gwaed.

Cychwynnodd ar ei yrfa yn ifanc, ac yn aelod o Glwb Ffermwyr Ifanc Caernarfon, enillodd yn Rali Eryri ar gystadleuaeth beirniadu stoc. Aeth ymlaen i'r 'Royal Welsh', ac ennill yno hefyd. O ganlyniad i hyn cafodd gynnig prentisiaeth yn y maes gyda'r Comisiwn Cig a Da Byw, a'r mis hwn cwblhaodd ddeugain mlynedd fel 'grader'. Pan ddechreuodd ar ei yrfa, Meic oedd yr ieuengaf yng Nghymru, ac ers y cychwyn hwnnw, gwelodd lawer o newidiadau ym myd amaeth, a llanw a thrai ym mywydau ffermwyr Gwynedd.

Mae bellach yn gweithio ym marchnadoedd da byw Dolgellau, Machynlleth a'r Bala. Ar gychwyn ei yrfa roedd tair ar ddeg o farchnadoedd yn hen sir Gwynedd a'r un faint o ladd-dai. Erbyn hyn, chwech o farchnadoedd sydd ar ôl a phedwar lladd-dy. Ond nid dyna'r unig newid sydd wedi digwydd. Bellach, mesurau metric sy'n cael eu defnyddio i bwysu'r anifeiliaid, a daeth bridiau newydd – yn ddefaid a gwartheg, i newid patrymau ffermio. Ond ym marn Meic, effaith Chernobyl oedd y newid gwaethaf a ddigwyddodd yn hanes ffermio dros ei gyfnod gwaith. "Roeddwn yn prisio ŵyn am £40 ddiwedd yr wythnos," meddai, "a'r pris wedi gostwng i £4 y pen erbyn dechrau'r wythnos wedyn.

Cafodd clwy'r Traed a'r Genau effaith debyg ar brisiau yn 2001."

Wrth edrych yn ôl dros yrfa hirfaith, mae'n cyfaddef iddo wneud llawer o ffrindiau, a hynny er fod rhai o'r 'hen lawia' yn gyndyn o dderbyn barn un mor ifanc flynyddoedd yn ôl! Mae'n siwr nad Meic roedd rhai yn ei alw bryd hynny! Ond mae'r llygad barcud sy'n gweld rhagoriaethau (a gwendidau) y stoc a ddaw i'r farchnad yn dal yr un mor llym, a phan gafodd yr "Eco" sgwrs ag ef (yn hwyr iawn un noson), roedd yn paratoi i gychwyn am Ddolgellau am hanner awr wedi chwech y bore canlynol.

Braf yw cael llongyfarch un o hogia'r fro ar yrfa lwyddiannus sydd wedi ennyn parch a chyfeillgarwch ymhlith brawdoliaeth y byd amaeth.

Nadolig Ddoe

Mae gen i hiraeth am Nadolig ddoe
O! na ddaw eto i mi.
Daw aroglau pin
Tân coed a gwin
Ac atgo' plentyndod yn lli
Pan oedd pob copa'n wyn a rhew ar lyn,
Carolau a chlychau yn gân;
Ddiniwed fyd
Mor ddedydd glyd,
I gyd yn ein gwynfyd glân.

Mae arnaf eisiau teithio 'mhell yn ôl
Pan oeddwn nwyfus a llon,
Aelwyd wiw ddi-nam
Fy nhad a mam
A chariad yn arllwys o'r bron.
O! na chaf deimlo eto gyffro'r ŵyl
Fel yn y dyddiau a fu.
Cwmpeini mwyn
Mewn hud a swyn
Sy'n fwy na 'ngobeithion i.

Mae gen i gyfoeth o ddarluniau byw
Diolch amdanynt bob un.
Dyma lety'r ych
A dynion gwyh
Yn plygu i lawr i un dyn.
Dewch, dacw'r baban Iesu yn ei grud
Clywch yr angylion uwchben.
Mor hardd yw'r llun
O hyd yr un
Dan olau y seren wen.

Carys Edwards
Parc, Y Bala

Sgwarnaw Nadolig – Atebion.
Archif, Cochaf, Coch, Corach, Croch, Crochan, Crychio,
Crychni, Cychio, Cyfach, Cyfarch, Cych, Cychaf, Cychfa,
Cyrchfan, Nycha, Nychaf, Ochain, Ochraf, Ochri.
(Os yw'r gair yn ddiethir – edrychwch yn y geiriadur!
Cyfarchion!)

NADOLIG LLAWEN A Blwyddyn Newydd DDA

I holl ddarllenwyr ECO'R WYDDFA
oddiwrth BAWB yn



Diolch am eich cefnogaeth yn ystod y flwyddyn
Ffôn-(01286) 872304



Trwsio ceir a faniau Gwaith MOT Mecanic profiadol iawn Prisiau cystadleuol

Llanrug 01286 677362 07979620996

Ysgol Penisarwaun

Gala Nofio – Aeth rhai o blant Bl 3 i 6 i gymryd rhan yng Ngala Nofio yr Urdd ym Mhwll Nofio Bangor yn ddiweddar, da iawn chi blant am wneud ymdrech dda.

Plant Mewn Angen – Casglwyd £75 tuag at yr achos teilwng yma gyda diolch i bawb am eich cyfraniadau.

Carolau – Daeth Cwmni Da yma bore dydd Gwener Rhagfyr Sed i ffilmio plant Bl 3 i 6 yn canu Carol. Byddant i'w gweld ar y sgrin fawr ar y maes yng Nghaernarfon yn ystod cyfnod y Nadolig. Dai awn chi blant.

Diolch i bawb am gefnogi'r cwbl sydd wedi bod yn digwydd yn yr Ysgol yn ystod y cyfnod yn arwain at y Nadolig, sef amser prysur iawn i bawb. Yn ogystal hoffwn ddiolch am y gefnogaeth mae'r Ysgol wedi ei dderbyn gydol y flwyddyn. Dymunwn Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd dda i chwi i gyd.

Cronfa Pensiynwyr Penisarwaun

Pêl Bonws Loteri - Enillydd Mis Tachwedd oedd Mrs Liz Jones, 17 Bryn Tirion, gyda rhif

17 Llongyfarchiadau. Dymunaf pwyllgor diolch i bawb am eu cefnogaeth i'r bêl bonws yn ystod y flwyddyn gan ddymuno pob lwc i bawb y flwyddyn nesaf!

Cinio Nadolig y Pensiynwyr Daeth dros 40 at ei gilydd i fwynhau cinio Nadolig blasus iawn yng Ngwesty'r Lion Cricieth dydd Sadwrn Rhagfyr 13eg. Dymuna pawb ddiolch i'r criw bach sydd yn trefnu hyn bob blwyddyn.

Parti Nadolig i'r plant - Cynhaliwyd te parti yn Neuadd yr Eglwys nos Lun, Rhagfyr 22ain. Digon o fwyd a dawnsio ac, wrth gwrs, ymweliad gan Siôn Corn. Trosglwyddwyd yr elw i Gronfa Pensiynwyr y Pentref. Diolch i'r criw gweithgar am drefnu, roedd y Plant wedi mwynhau'n fawr iawn.

Diolch yn Fawr Dymuna teulu y ddiweddar Kate Rosser, 5 Llys y Gwynt, ddiolch am bob arwydd o gydymdeimlad a dderbyniwyd ar ôl colli mam, nain a chwaer annwyl.

Dymuna Rhian, Bryn Arfon, Penygroes a theulu Pen y Gaer ddiolch am y caredigrwydd a'r dymuniadau da yn dilyn llawdriniaeth Rhian. Bu'r cyfan

yn gysur mawr ar amser anodd iawn.

Ti a Fi Roedd parti Nadolig Cylch Ti a Fi ar 11 Rhagfyr 2014. Plant wedi gwisgo i fyny a gweld Siôn Corn.

Mae'r Cylch yn ail-agor 8 Ionawr 2015. Croeso cynnes i rhieni, gwarchodwyr, babanod a phlant bach i'r sesiwn wythnosol yn Ysgol Penisarwaun ar bnawn dydd Iau o 1.30 tan 3.00 o'r gloch. Teganau, crefftau a chanu ar gyfer y plant, bydd diod a bisgedi yn ogystal â phaned ar gyfer yr oedolion am gyfraniad o £1.

Ysgol Sul Bosra Dymunir diolch i Ffiona am drefnu'r Trip ar Drên Bach Rheilffordd Llanberis bnawn Sul, Rhagfyr 14, i weld Siôn Corn. Bydd yr Ysgol Sul yn aildechrau fore Sul, Ionawr 11 2015. Croeso cynnes i aelodau newydd. Nadolig llawn hwyl i chwi blant gan Mr Evie Jones, Anti Ann ac Anti Liz.

Llongyfarchiadau i Eurgain Haf, Rhiwen, Pontypridd (Sycharth, Bryn Eglwys gynt) ar ennill y Fedal Ryddiaith yn Eisteddfod Gadeiriol Dyffryn Ogwen. Pob dymuniad da i'r dyfodol.

Llongyfarchiadau hefyd i Magi Tudur gyda'i chanu hudolus. Ei chân hyfryd 'Rhywbryd' oedd tracyrwythnos ar raglenni Dylan Jones, Tomo a Geraint Lloyd ar Ragfyr 9-12. Pob dymuniad da i tithau Magi i'r dyfodol.

Pwyllgor Neuadd Gymuned Cynhelir pnawn Nadoligaidd yn y Neuadd Gymuned ar Ragfyr 18fed am 2.30 gydag eitemau gan blant yr ysgol ac aelodau'r pwyllgor. Bydd cyfle i ganu'r Hen Garolau, mwynhau paned a mins pei a chymdeithasu. Tynnir y Clwb Cant ac atgoffir pawb y bydd angen adnewyddu'r aelodaeth ym mis Ionawr: 50c y mis, £6 y flwyddyn ac mae modd ymaelodi drwy Archeb Banc. Dymunwn Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Ddedwydd i bawb.

Cydymdeimlad Ar Dachwedd 11eg, yn dawel yn Ysbyty Gwynedd, bu farw Sarah (Sarah Blodau Racca), priod a ffrind gorau Alwyn. Anfonir ein cydymdeimlad llwyr ag Alwyn a'r teulu yn eu colled fawr ac rydym yn meddwl amdanoch.

NADOLIG LLAWEN

A Blwyddyn Newydd Dda
Oddiwrth Bawb Yn

DRAGON MOTORS

CWM Y GLO

TEL. LLANBERIS 871172

Diolch am eich Cefnogaeth yn ystod y flwyddyn

J. M. JONES

a'i FEIBION

LLANRUG

Gwaith Coffaol

Ffôn Gwaith
01286 672898

Cartref
01248 679089

Y Sgwâr, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd LL55 4AA

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd dda oddi wrth bawb yng

NGHARTREF

Ffordd yr Orsaf
LLANRUG

Ffôn: C'fon 674652

Nadolig llawen a Blwyddyn Newydd dda oddi wrth bawb yn

GAREJ GWALIA

CAEATHRO

Ffôn: 673096

Gwasanaeth
Torri Lawr 24 awr
M.O.T. * Trwsio Ceir

Ar agor 7 a.m. – 10 p.m. bob dydd. Bwyd, diodydd, papurau newydd, fideos, bara, llefrith, ayb

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth

Dave, Bobbie a staff y

GLYNTWROG

LLANRUG

671191

Bwyd ardderchog
am brisiau rhesymol

Bydd croeso cynnes yma dros yr ŵyl



CHWILOTA

chwilota.wordpress.com

Cwt Be ar y Foel Gron?

Ar ddiwrnod olaf Hydref cefais y cyfle i ymweld â chwt ar lethrau'r Foel Gron uwch Llyn Cwellyn. Nid yn aml y bydd unrhyw un yn dewis ymweld â chwt, yn enwedig cwt sydd wedi ei leoli tua 700 troedfedd i fyny llethr go serth. Felly, beth oedd yr atyniad?

Ym mhlwyf Betws Garmon mae traddodiad mai yma roedd Cell Garmon. Mae rhai yn credu mai cwt geifr sydd wedi ei leoli yma, a thybia eraill mai cwt bugail ydyw, ond hyd y gwn i, does neb yn siwr iawn.

Mae'r cwt cerrig wedi ei adeiladu ar ochr uchaf y wal sy'n gwahanu'r llechweddau isaf oddi wrth ffriddoedd yr ucheldir, ac mae'n ymddangos fel pe bai wedi ei blethu i mewn i'r wal honno. Mae'r to hefyd o gerrig, a'r cyfan fel pe wedi eu tynnu o greigiau sy'n brigo i'r wyneb ar y llechweddau uwchben. Mae dwy fynedfa, y naill ar bob talcen, a'r rheini'n arwain i ddwy ystafell weddol isel, ond gyda'r llawr wedi ei balmantu â cherrig llyfnion. Does dim sicrwydd a fu ffrâm bren na drws i'r un o'r ddwy fynedfa. Yn uwch i fyny'r llethr mae tarddiad ffrwd fechan sy'n llifo heibio'r cwt. Yno hefyd mae olion cylch cerrig bychan – cylch nas cofnodwyd yn unman hyd y gallaf ddarganfod.

Bum yn chwilo am rywfaint o hanes y cwt. Mae chwilio am hanes tŷ yn medru bod yn ddigon trafferthus, ond hanes cwt!

Mae'r cwt wedi ei ddangos ar y Map Arolwg cynharaf o'r ardal, sef map dwy fodfedd 1816. Mae'n ymddangos wedyn ar fapiau manylach a mwy o ran graddfa yn 1889 a 1915. Yn anffodus, nid yw mapiau Degwm Betws Garmon (yn 1843) o fawr werth gan mai ffiniau ffermydd yn unig a ddangosir. Gwelir felly fod y cwt wedi herio stormydd am o leiaf ddwy ganrif ar lethrau uchaf y Foel Gron – ac yn dal i sefyll.

Ym mis Hydref 1875 cafodd y cwt ei 'ddarganfod' yn ei oriau hamdden gan Henry McKie, syrfewr i gwmni'r North Wales Narrow Gauge Railway. Anfonodd ddisgrifiad manwl o'r adeilad i Edward Breese,



cyfreithiwr o Borthmadog, gan son am y posibilrwydd ei fod yn gell meudwy tebyg i rai a welodd yn Iwerddon. Mae hefyd yn tybio y gallai fod wedi ei ddefnyddio gan fugail, er nad oedd lle tân na simnai yn perthyn iddo. Ond yn ôl Edward Breese, "I do not think the building you refer to is anything more than a shepherd's hut."

Ddiwedd 1966 cafodd y cwt ei 'ail-ddarganfod' gan y diweddar Wil a Mary Vaughan Jones, Waunfawr. Anfonwyd y wybodaeth i'r Comisiwn Henebion yn Aberystwyth. Mae'r ateb yn tueddu i gadarnhau mai cwt bugail sydd yma, "but it could be an anchorite's cell. The ancient cells of the religious on the west coasts of Ireland are very similar. Better for the moment to call it a pre-18th century corbelled hut..." Ac fel cwt cerrig wedi ei gorbely y cofnodir ef gan y Comisiwn hwnnw heddiw.

Yn gynharach eleni cyhoeddwyd adroddiad cynhwysfawr gan Ymddiriedolaeth Archaeolegol Gwynedd ar "Medieval and Post-Medieval Agricultural Features in North-West Wales." Yn yr adroddiad hwnnw, disgrifir y cwt fel "a very well preserved small building that retains corbelled roof and rough stone slabs entirely intact." Ond er mai'r awgrym a geir yn yr adroddiad hwn hefyd yw mai cwt bugail sydd yma, "it is possible that it was built for another function." Ond does dim awgrym ynglŷn â beth allai'r "other function" hwnnw fod.

Un posibilrwydd yw iddo gael ei ddefnyddio fel cwt geifr. Dangosodd Gwenno Caffell mewn erthygl yn Archaeology in Wales (1988) fod cytiau myn geifr yn cael eu defnyddio gan ffermwyr i odro llaeth o eifr rhannol wyllt. Darganfu gwt myn yn Nant y Benglog, rhwng Nant Ffrancon a Chapel Curig. Roedd iddo ddwy ystafell, ond fod to un ohonynt wedi dymchwel. Y dull oedd dal ychydig o fyn a'u cadw yn yr ystafell leiaf. Deuai'r geifr i chwilio amdanynt, a chaent eu corlannu o fewn yr ystafell fwyaf. Gadewid y myn at y geifr i gael ychydig laeth, ac yna'u gollwng yn rhydd. Byddai'r ffermwr wedyn yn godro'r hyn oedd yn weddill o laeth y geifr, cyn eu gollwng hwythau'n rhydd i'r mynydd. Tybed a oedd y dull hwn yn cael ei ddefnyddio ym Metws Garmon?

A dyna gip ar hanes posibl Cwt y Foel Gron, gyda thri defnydd posib iddo. Dewiswch chi.


Nadolig Ganrif yn ôl.

Pedair ar ddeg oed oedd Elizabeth May Lloyd, Werglodd Fawr, Waunfawr pan ysgrifennodd ei theimladau am Nadolig 1914 ar dudalen o 'gopibwc' ysgol ar y 15fed o Ragfyr y flwyddyn honno – a'r Rhyfel Byd Cyntaf newydd ddechrau. A 'Good' oedd sylwadau'r athro neu'r athrawes am ei hymdrech.

Saesneg oedd iaith yr ysgolion bryd hynny, a dangosir copi o'r gwaith hwnnw yn Saesneg, oherwydd anodd fyddai cyfieithu teimladau'r eneth ifanc honno, a llawer anos i ni heddiw yw amgyffred teimladau ieuencid y cyfnod hwnnw gyda brodyr neu dadau oddi cartref gyda'r fyddin.

Mae'r llun yn dangos Elizabeth (ar y dde) gyda'i chwaer ieuengaf, Sassie Lloyd, sef mam John Williams, Minffordd, Llanrug erbyn heddiw. Bu Elizabeth Lloyd farw yn 1918 yn ddeunaw oed o effeithiau'r fflw Sbaenaidd.

Cadwyd ei gwaith ysgrifenedig gan y teulu, ac yr wyf yn hynod ddiolchgar iddynt am rannu'r perl bychan hwn sydd mor arwyddocaol ganrif union wedi cychwyn y Rhyfel Mawr.



Eiddo Plas Pentir yn Llanddeiniolen.

Mewn rhifynnau cynharach, cafwyd peth o hanes teulu Plas Pentir tra’n son am ardal Rhiwlas. Yn dilyn yr erthygl honno, daeth Hywyn Williams (Deiniolen gynt) i gysylltiad yn nodi fod gan Blas Pentir eiddo ym mhlwyf Llanddeiniolen, a chyfeiriodd yn benodol at Caeau Uchaf ar y Waen Gynfi. Anfonodd hefyd nifer o nodiadau a chyfeiriadau oedd yn cadarnhau hynny. Iddo ef mae’r diolch am gasglu’r nifer helaeth o gyfeiriadau at Cae Cethin/Caeau Uchaf sy’n ffurfio crynswth colofn y mis hwn felly.

Mae un o Fapiau Arolwg Stad y Faenol yn dyddio o 1778. Yn naturiol ddigon, eiddo’r Faenol sy’n cael ei ddangos ar y map, ynghyd â’r tiroedd comin. Ceir hefyd enwau’r perchnogion sy’n ffinio â thiroedd y Faenol, ac yn eu plith, ar lethrau’r Moel Rhiwen cawn yr enw Tyddyn Cethin, eiddo Hugh Williams, Esquire. Yr Hugh Williams hwn oedd mab hynaf Hugh Williams a Margaret, Plas Pentir. Roedd i Hugh a Margaret chwech o blant, ond bu farw tri yn ifanc, gan adael tri brawd: Hugh, Henry a John. Bu Hugh Williams (y tad) farw ddiwedd Rhagfyr 1754 a’i gladdu yn Ionawr 1755. Aeth y stâd yn eiddo i’w fab hynaf, Hugh, ond bu farw yn ddi-blant yn 1788, ddeng mlynedd wedi dyddiad y map arolwg.

Henry Williams etifeddodd y stâd ar ôl ei frawd. Roedd yn rheithor Llandwrog, ond yn byw ym Mhlas Pentir. Mae dogfen arall ar gael (yng nghasgliad y cyfreithwyr Poole o Gaernarfon) sy’n cofnodi cytundeb ym mis Mawrth 1797 rhwng Philip Holland o Gonwy, ac eraill, gyda’r Parch Henry Williams, Pentir “brother and heir of Hugh Williams, late of Pentir, deceased.” Enwir nifer o dai a thiroedd yn y ddogfen, gan gynnwys “a field called Cae Cethin, held by William Nevan, yeoman, in Dinorwig.” Gallai’r ‘Nevan’ fod yn gam-sillafiad o Bevan neu Ieuan, ac mae’r enw ‘Dinorwig’ yn cyfeirio at yr oll o blwyf Llanddeiniolen.

Bu farw’r Parch Henry Williams yn 1803 yn 57 mlwydd oed; yntau hefyd yn ddi-blant, ac aeth Stâd Pentir yn eiddo i’w frawd, John Williams, a oedd yn llawfeddyg. Cwta flwyddyn y bu’r stâd yn ei berchnogaeth, oherwydd bu yntau farw ym mis Mehefin 1804 yn 52 oed. Roedd yntau hefyd fel ei frodyr, yn ddi-blant, ac felly dyna ddiwedd olyniaeth Williamsiaid Plas Pentir.

Ond nid dyna ddiwedd y stâd. Yn ôl yr hanes, roedd John Williams ar noson ei farwolaeth yn cael trafferth i lofnodi ei ewyllys, ac yn methu torri ail linell y groes gyferbyn a’i enw. Cadarnhawyd dilysrwydd yr ewyllys gan ddau dyst oedd yn bresennol, sef Dr Owen, ei feddyg, a John Evans, cyfreithiwr, y ddau o Gaernarfon. Efallai fod peth sail i’r hanes, oherwydd dri mis wedi ei farwolaeth roedd Edward Jones yn gwneud cais cyfreithiol i hawlio Stâd Plas Pentir. Un o Fôn oedd yr Edward Jones hwn, a chefnder i dad John Williams y meddyg. Does wybod beth yn union fu canlyniad y cais cyfreithiol, oherwydd mewn llai na phedair blynedd roedd Edward Jones hefyd wedi marw, a rhannwyd yr etifeddiaeth yn gyfartal rhwng Thomas Jones (cyfyrdar i John Williams, a mab y diweddar Edward Jones) a Sidney Green (cyfyrdres i John Williams). Mae’n ymddangos mai yn 1811 y digwyddodd hyn.

Saethu yn Nant Peris ac enwau Bwlch Llanberis.

Cafwyd ymateb eisoes i’r hanesion hyn, a gobeithio y bydd cryn dipyn mwy o wybodaeth i’w rannu gyda chwi erbyn y daw rhifyn Chwefror o’r wasg.

Nadolig Llawn a Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth bawb yn siop

 **LONDIS**
FFORDD YR ORSAF LLANRUG **LONDIS**

Ffôn: **672937**
Y gwerth gorau’n lleol

- Diolch am eich cefnogaeth yn ystod y flwyddyn
- Dewis da o fwyd a diod i ddathlu’r Wyl o ben bore tan yn hwyr y nos!

Dichon fod cais Edward Jones wedi achosi problemau – a chostau! - i sgutoriaid yr ewyllys. Efallai mai dyna pam y rhoddwyd peth o eiddo’r stâd ar werth yn 1810. Enwir Tyddyn Andrew a Thyddyn Berth (ardal Bethel) a Chae Cethin, Cae Mawr a Bronnydd (ardal Moel Rhiwen) ym mhlwyf Llanddeiniolen. Enwir hefyd Cefn Gwyn ym mhlwyf Llanfair is gaer a nifer o ffermydd a thai ym Mangor. Ymddangosodd yr hysbyseb yn y North Wales Gazette am rai wythnosau, ond does wybod a werthwyd y cyfan o’r eiddo.

Yn ôl yr hysbyseb, deg acer oedd maint daliad Cae Cethin, “a tenement and lands in the occupation of Griffith William’s widow as tenant from year to year.” William Griffith, mab Griffith William a brynodd Caeau Uchaf, (hynny tua 1812) a oedd “yn perthyn gynt i aeriaeth Pentir” yn ôl Dewi Peris yn ei Draethawd ar Waen Gynfi. Mae awduron y traethodau ar Waen Gynfi yn gytun mai Cae Cethin oedd yr hen enw ar Caeau uchaf, ac y mae achau teuluol Griffith Williams yn eu gosod yno hefyd.

Mae’r teulu yn hannu o William Bellis, Bron y fedw uchaf, Betws Garmon a’i wraig Jane Griffith. Sefydlodd y ddau ym Maes y Dref, a chawsant unarddeg o blant. Ganed Griffith/Gruffydd William yn 1748, a phriododd a Sian/Jane Rowland. Bu iddynt hwythau chwech o blant. Bu Gruffydd William farw yn 1803, ac fe’i claddwyd ym Mynwent Llanddeiniolen ym mis Ebrill y flwyddyn honno. Sian Rowland yw’r weddw y cyfeirir ati yn yr hysbyseb yn y North Wales Gazette.

Mae’r dyddiadau hyn i gyd yn awgrymu fod Cae Cethin/Caeau Uchaf wedi ei brynu gan William Griffith oddi ar Stad Plas Pentir tua 1810-12. Yn sicr, roedd ym meddiant William Griffith erbyn 1823, oherwydd ar dir Caeau Uchaf yr adeiladwyd Capel Ebenezer. Cafwyd y tir ar brydles gan William Griffith am gant ac un o flynyddoedd, a threth o bunt y flwyddyn.

Erbyn 1843 a chyfnod Map Degwm Llanddeiniolen, cofnodir Griffith William yn berchennog ar Caeau Uchaf (mab William Griffith tybed?), daliad oedd erbyn hyn yn 19 acer. Roedd hefyd yn berchen Bryn y ffrwd (tenant: Mary Jones), dau fwthyn di-enw a’u gerddi (tenantiaid: John Jones a William John), a bwthyn a chapel (tenant: Thomas William). Ebenezer oedd y capel. Doedd y cyfan yn ddim ond ychydig dros bedair acer.

A beth am weddill Stâd Plas Pentir? Bu Sidney Green farw yn 1820 ac erbyn 1829 Thomas Jones oedd perchennog yr holl eiddo. Roedd yntau wedi marw erbyn 1843. Ar Fap Degwm Llanddeiniolen, prin iawn yw eiddo “the representatives of the late Thomas Jones, Esquire.” Dwy lain o dir yn Waen Pentir a llain arall yn Rhos yr Hwylfa, Seion yw eu hunig eiddo, a’r cyfan yn ddim mwy na 13 acer. Rywdro wedi 1845 aeth holl eiddo’r stâd i berchnogaeth y Penrhyn.

Mae mwy o hanes diweddar Plas Pentir i’w gael gan y diweddar Athro R.O.Roberts, Abertawe (Rhiwlas yn wreiddiol) yn rhifynnau Mawrth, Ebrill a Mai 1988 o Llais Ogwan.

Yn y cyfamser, mwynhewch dymor y gwyliau a daliwch i gysylltu ynglyn ag unrhyw agwedd o hanes y fro. Anfonwch at Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug, Caernarfon. (01286 673515 neu dafydd.wthomas@btinternet.com)

 **GWYNANT PIERCE**

CYNYRCHION COED
GATIAU • FFENSUS
AM BRISIAU
CYSTADLEUOL

**Uned 1
Fferm Bryn Afon
LLANRUG**

**(01286) 674183
(0589) 899901**

SAMARIAID

Mae
Llinell Gymraeg

0300 123 3011

ar gael bob nos
rhwng
7.00pm ac 11.00pm

LLWYBR *gan Math Roberts*

Sigla'r gadair yn ysgafn o flaen y tân fflamgoch gyda dim ond sŵn main y lloriau'n gwichian oddi dano i'w glywed. Daeth snap bywiog o'r tân bob hyn a hyn wrth i sbecyn afreolus o dân oren ddianc a gadael mwg dudew yn codi ac ychwanegu at yr haen denau o huddyg oedd yn prysur ffurfio o dan y silff ben tân. Sgleinia'r potiau a brasus lliw aur ar y silff gan ddangos hoel sgrwbio gyda mwy nag un gôt o Brasso yr wythnos.

Codai gortyn tenau o fwg tuag at y to ac at sgwaryn melyn a oedd yn ei ddisgwyl, yr un a bu yno ers blynyddoedd, yn tywyllu yn araf wrth i'r "trên" oddi dano ddod yn ôl i'w chadair siglo o flaen y tân.

"Helo?" galwodd y trên a chodi o'i stesion cyn gwneud ei ffordd tuag at y drws.

"Nain? Fisy' ma," gwaeddodd llais bychan o ochr arall y drws. Agorodd yr hen wraig y drws trwm i ddatgelu merch ifanc yn gwenu arni.

"Helo siwgwr!" meddai'r wraig gan ddatgelu twtsh o syrpreis yn ei llais, "Be ti'n da yn fama?"

"Wel diolch am y croeso!" meddai'r ferch yn chwareus gan sylwi ar wyneb crychlyd, hen ei nain cyn sylwi drachefn ar ei syndod.

"Ma' na bob tro groeso i ti yma 'nghariad i!" chwarddodd hithau cyn gadael ei hwyres mewn i'r tŷ bychan. Camodd y ferch un ar bymtheg oed i mewn i'r bwthyn cyfarwydd. Goleua'r tân ei hwyneb gan wneud iddi sefyll allan. Disgynnai gwallt euraidd fel tonnau i lawr eu hysgwyddau ac o gwmpas ei hwyneb crwn. Eisteddodd y ferch ar y gadair freichiau frowngoch gyferbyn â'i nain.

"Wyt ti yn symud o'r gadair 'na o gwblw 'lly nain?" gofynnodd y ferch wrth i'r hen wraig osod ei hun yn ofalus yn ôl yn ei chartref.

"Dim ond i adael ti i mewn" meddai hithau gyda gwên cyn estyn am sigarét newydd o'r bocs aur ar y bwrdd wrth ei hymyl, ar ôl sylwi bod y llall wedi diflannu i'r to. Gwenodd y ferch, gan geisio cuddio pryder tu ôl i'w llygaid tryloyw.

"Felly. Be' sgen ti i ddeud?" meddai Nain mewn llais anwythol. Doedd hi ddim wedi ei thwylllo gan wên ddiargyhoeddiad ei hwyres. Ymestynnodd ei llaw tuag ati gan geisio ei hymlacio. Trodd y ferch ei hwyneb tua'r tân gan syllu i fyw ei lygad coch.

"Eisiau gofyn 'wbath 'dwi. Pam wnaethoch chi fabwysiadu mam?"

"Mae'n ddrwg iawn ond mae gen i ofn nad ydy hi yn bosibl i chi gael plant". Atseinia'r geiriau yn fy mhen drosodd a throsodd. Dim plant! Dim plant! Roeddwn yn teimlo dagrau yn gwthio eu ffordd i flaen fy llygaid ond roedd y pwysau yn fy mhen i yn fy atal rhag crio. Yn rhy wag i siarad, yn rhy drwm fy nghalon i feddwl yn glir, eisteddais heb yngan gair. Pasiodd munudau fel oriau. Yna, codais a throï tua'r drws, yn wyn fel y galchen. Teimlais law gysurus Seiriol ar fy ysgwydd.

"Diolch Doctor" meddai. Roedd rhaid i rywun ddiolch iddo! Ond wrth adael yr ystafell atseinia'r geiriau yn fy mhen...diolch doctor.... dim plant...dim plant ... diolch ... plant....dim byd...dim.

Wedi cyrraedd y car, syllais drwy'r ffenest, fy mol yn wag a fy llygaid yn sych.

"Byddi di yn teimlo yn well ar ôl cyrraedd adra," meddai llais cyfarwydd ond diarth Seiriol wrth i sŵn yr injan foddi sŵn fy nghalon yn torri.

Daeth bywyd yn ôl i lygaid yr hen wraig. Roedd blynyddoedd ei chof wedi pasio mewn eiliadau a'i cheg bellach yn sych. Roedd edrychiad dychrynlyd ar ei hwyneb ddi-emosiwn a'r boen yn ei llyncu fel bod dim ond plisgyn gwag, bregus ar ôl. Ond yn yr eiliadau hynny sylwodd y ferch ar wewyr ei nain, gwewyr nad oedd hi wedi ei weld erioed o'r blaen. Hen boen, poen oedd wedi gadael creithiau, haen ddofn o boen wedi ei orchuddio gan flynyddoedd o geisio anghofio.

"Nain? Dach chi yn iawn?"

"Yndw siŵr," meddai gan wthio gwên fach i'w gwefus. "pam na fyswn i?" "Edrych yn bell oeddach chi."

"Meddwl am dy gwestiwn oeddwn i, dyna'i gyd. Siawns dy fod ti yn gwybod yr ateb i hynny erbyn hyn. Ti'n ddigon hen."

"Ia...yndw...ond...". Arhosodd am eiliad. Ochnaidiodd. "Oedd o yn broses anodd? Mabwysiadu 'lly?"

"Dim felly...yr adeg hynny," atebodd y wraig gan estyn am y procar cyn ei stwffio yn galed trwy weddillion y tân. Dawnsiodd barti o oleuadau bach oren i fyny'r simdde. "Dim ond ychydig o waith papur ac ambell cyfarfod swyddogol."

"A be' am mam iawn mam 'ta? Oedd 'na lot o waith iddi hi?" Pwysodd y ferch ymlaen yn ei chadair. Sylodd i'r tân er mwyn osgoi edrychiad ei nain. Syllai lygad y tân yn ôl arni hi fel petai yn syllu yn ddwfn i'w chydwybod ac yn gweld eu heuogrwydd.

"Wel i fod yn onest, doedd neb yn gwybod pwy oedd ei rhieni hi. Cartref Plant oedd wedi ei chymryd hi yn fabi ychydig ddyddiau oed. Wedi rhoi enw iddi a phob dim." Daeth cysgod dros ei hwyneb. "Ei maethu hi yn gyntaf gwnaethom ni - fi a dy daid - hyd nes iddi gyrraedd 12 oed. Ond roedd Seiriol a fi yn gwybod mai hi oedd y ferch iawn i ni - er ei holl strops a tantryms!" Chwerthodd yn ddistaw i'w hun ond dal i edrych digon gwelw.

Sigla'r hen wraig yn ei chadair gan syllu yn ôl i'r tân oedd yn marw yn araf, y golau coch yn llosgi gweddillion y llwch. Distawrwydd.

"Pam ti'n gofyn yr holl gwestiynau 'ma beth bynnag?" meddai'r

wraig, rhyw fymryn yn bigog a diamynedd erbyn hyn. Gwelodd ymateb pryderus y ferch ac fe newidiodd ei thôn yn fwy annwyl. "Be' sy'n dy boeni di? Dydy o ddim fel chdi i ddod i grwydro yma dy hun."

"Nain," meddai gan droi ei phen i edrych tua'r drws. "Dwi'n disgwyl."

Dwi yn fy nhywyllwch fy hun. Does unlle gwell. Dwi yn cau fy llygaid a dwi yno. Dim sŵn, dim ond distawrwydd marwol yn llenwi fy synhwyrau. Dyma'r lle gorau i feddwl, y man mwyaf perffaith i hel fy meddyliau a'u rhoi nhw mewn trefn. A fan hyn dwi'n teimlo'r boen. Dwi yn corddi, dwi'n crio, dwi methu coelio. Methu coelio bod bywyd mor greulon. Mor dwyllodrus.

Agorais fy llygaid wrth i'r bws daro carreg. Deuais yn ôl i'r byd.

Sylwais ar y dyn wrth fy ymyl, ei ddwylo chwyslyd yn ffidlan â gwaelod ei siaced wrth i'w lygaid grwydro yn ôl ac ymlaen o'i ddwylo at yr arwydd Dim Ysmygu ar y ffenestr.

Daeth y bws i stop a chodais yn ofalus. Cododd fy nghymydog hefyd a gwthio heibio ei gyd-deithwyr. Rhuthrodd o'r bws a'i law yn ei boced. Yna estynnodd sigarét a'i danio yn frysio cyn rhoi ochenaid o ryddhad wrth sugno'r huddyg tew. Camais oddi ar y bws a syllu ar y dyn caeth. Cynigiodd sigarét i mi - dwi ddigon hen rwan mae'n rhaid. Pe bai o ond yn gwybod - gwybod ei fod yn lladd fy mabi yr eiliad hon.

Daeth yr un golwg dros wyneb yr hen wraig eto - golwg boenus a phryderus. Golwg wag a gwan.

"Nain! Dudwch rwbath!" Daeth yr hen wraig yn ôl i reality.

"O siwgwr!" Doedd dim golwg blin na chasineb ond piti ar ei hwyneb erbyn hyn.

"Dim ond chi dwi'n ei thurstio nain. Be ddudith Dad?" Roedd dagrau yn gwthio trwy hyder y ferch a'i llais bellach yn grug.

"Pam sa ti yn gwneud ffasiwn beth i ti dy hun hogan?" Cododd y wraig o'i chadair a'i adael i siglo yn dawel o flaen y gobaith lleiaf o dân. Cofleidiodd ei hwyres.

"Ti angen byw dy fywyd gyntaf cyn meddwl am gael babi!" Sylodd i'r cols cringoch. "Coelia di fi - dwi'n gwbod sut mae o'n teimlo!"

Edrychodd y ferch ar ei nain gyda mymryn o chwilfrydedd.

"Ond mi ddudoch chi bo' chi 'di methu cael plant?"

Cuddia'r glaw'r dagrau oedd yn rhedeg i lawr fy ngruddiau fflamgoch. Rhedais trwy'r storm ar hyd y ffyrdd tywyll, bychain. Roedd arogl erchyll yn codi o'r traeniau ac yn llenwi fy ffroenau a dim ond swm crïo main yn byddaru fy nghlustiau. Edrychais i lawr ar fy myd yn fy mreichiau, mor lân, mor ddiniwed, mor ddieuog. Gwelais golau gwan yn y pellter, Dyna fo. Rhedais nerth fy nhraed nes i mi gyrraedd y drws. Gosodais fy nhrysor mewn lliain gwyn ar lawr o 'mlaen. Wrth syllu arni am y tro olaf gwelais fywyd llawer gwell iddi, bywyd hapus, bywyd di-boen. Gosodais y sgrapyn bapur gyda'r neges rhwng ei dwylo bach,

Cadwch hi yn saff, Cadwch hi'n glyd

Rhowch hi i rywun gwell yn y byd.

Estynnaï o amgylch fy ngwddw a thynnu cadwyn euraidd fy mam cyn ei gosod yn ofalus ar fol fy mabi tlws. Cusan olaf ar ei phen ac yna... troi fy nghefn a cherdded i ffwrdd. Er gwaetha'r cwlwm tynn yn fy nhynnu yn ôl gadewais a'i chri yn atseinio yn fy nghlustiau.

"Yli 'nghariad i. Witshia befo be ddudis i. Dos adra a dweud wrth dy fam. Paid a gwneud dim byd y byddi di yn difaru mewn blynyddoedd i ddod." Cydiodd yn gariadus yn nwylo ei hwyres cyn gosod ei hun yn ôl yn ei stesion. "Mi fydd dy fam yn dallt - ac mi fydd hi yn gefn i ti, fel finnau."

Estynnodd y ferch ei chôt o gefn y gadair. Disgynnodd fwclis euraidd o'r boced. Cododd y wraig mewn braw a golwg syndod mawr ar ei hwyneb.

"Ble yn y byd ges di y gadwen 'na?" meddai mewn tòn ychydig yn gyhuddol.

"Mam rhoddodd hi i mi ar fy mhen-blwydd fis dwythfa. Yr unig beth oedd ganddi oedd yn perthyn i'w mam iawn hi medda hi."

Disgynnodd y wraig yn ôl ar ei chadair gyda chlec anghrediniaeth. Agorodd y ferch y drws trwm i'r oerfel a chamu allan.

"Diolch eto!" gwaeddodd cyn cau y drws yn glep gan adael dim ond ei hoel euraidd ar ôl.

"Croeso. Cofia fi at dy fam," meddai'r hen wraig mewn llais oedd prin i'w glywed wrth iddi siglo unwaith eto yn ei chadair yn pendroni, gan syllu yn ddwfn ar y tamaid o bren olaf un yn llosgi yn y grât, a dim ond swn main y lloriau'n gwichian oddi dani i'w glywed.



Ymson Rhys.

gan Nanw Llwyd

Blwyddyn 6

Cerddais i'r dosbarth yn teimlo yn eitha hapus, tan welais Mr. Pritchard, roeddwn yn gwybod ei fod yn mynd i weiddi arna i unrhyw funud.

"RHYS lle wyt ti wedi bod, mae hi'n ddau o'r gloch yn y prynhawn". Doeddwn i ddim yn gwybod be i ddweud am eiliad. "Yyyy, roedd gen i boen yn fy mol, sori mod i yn hwyr." Roedd Mr. Pritchard eisiau i ni ysgrifennu paragraff neu ddau am Owain Glyndŵr. Gofynnais i Lisa, dywedodd hi fod seren wedi dod a lwc i Owain Glyndŵr. Wrth gwrs doeddwn i ddim yn ei choelio, seren lwcus wir. Gofynnais wrth Dafydd wedyn, deudodd o yr union yr un peth, felly roedd Lisa yn iawn.

"Rhys stopia siarad, beth sy'n bod hefo ti heddiw, dos i'r gornel."

Penderfynais ddarllen llyfr am Owain Glyndŵr, a chymryd nodiadau o'r pethau roedd yn rhaid i mi eu cofio. Fel arfer dwi yn casau darllen ond unwaith darllenais y dudalen cyntaf doeddwn ddim yn gallu codi fy mhen o'r llyfr, hyd yn oed pan oedd hi'n amser chwarae.

Dywedodd Dafydd fod yna ffeith tu allan, Dicw yn erbyn Daren, ond ron i eisiau gorffen y llyfr. "Mr. Pritchard beth sy'n digwydd nesaf?" gofynnais. "Gwaith flwyddyn nesa ydy hyna," dywedodd. "Ond mae'n rhaid i mi wybod," dywedais yn benderfynol. "O'r gore". Dywedodd Mr. Prich stori drist iawn oedd yn mynd o ddrwg i waeth. Roedd Owain Glyndŵr yn colli pob man yn Cymru heblaw Gwynedd.

Yn y diwedd roedd dagrau'n llifo lawr lawr fy ngwyneb. Beth ydw i am wneud, sut ydw i am helpu Owain? HELP!!!

Pan gyrhaeddais adref o'r ysgol clywais Gareth fy mrawd bach yn dweud wrth mam fy mod ddim yn yr ysgol heddiw. Dywedais fy mod, wrth gwrs, oherwydd mi ron i newydd ddod o'r ysgol. Yn lwcus i mi fe goeliodd mam fi. Dywedais fy mod yn mynd i gysgu yn tŷ Crach eto. "Iawn ond dydy o ddim yn deg i fam Crach edrych ar eich hŏl bob tro, gofyna os ydi o eisiau dod draw i ein tŷ ni rywbyrd," dywedodd mam.

"O rhaid i fi fynd wan, mae Crach yn fy nisgwyl," dywedais. "Hwyl fawr". Cerddais lawr y stryd tuag at y bocs teliffon, yna clywais rhywun yn gweiddi "Ar ei ôl!" Y peth nesa welais oedd criw o hogiau hŷn na fi yn rhedeg ar fy ôl. Rhedais mor gyflym tuag at y bocs teliffon, roedd o fel fy mod yn rhedeg mewn ras yn y gemau olymпадаid!



Cyrhaeddais y bocs teliffon o'r diwedd. Mi ron i allan o wynt ond gan fy mod mewn gymaint o frys, doedd dim amser i stopio. Deialais y rhifau i mewn..1406!

Trodd y bocs teliffon, yn union fel y gwnaeth y tro cyntaf, ac unwaith eto roeddwn yn ôl yn y gorffennol. Edrychais o gwmpas yn disgwyl gweld tŷ twlc mochyn Crach, ond ni welais unrhywbeth. Rhyfedd, meddyliais.

Gwelais ddyn a dynes yn cerdded a chefais fraw pan dynodd y dyn gleddyf allan yn barod i fy lladd! "Deio paid, plentyn ydio," meddai'r ddynes. "Sori, Deio ydy fy enw i a dyma Gwen." Yna cofiais am Gwen, y ferch a welais ddoe!


"Rhys ydw i, ond y tro diwethaf i mi weld ti roeddet yr un oed â mi!" Roeddwn i wedi drysu'n lân. "Mae chwech blynedd wedi bod ers hynny!" dywedodd Gwen. Yna sylwais ar fy nhamgymeriad. "Wel lle mae tŷ Crach wedi mynd?" gofynnais. "Mae o wedi symud at Siôn Gruffudd ac mae ei dŷ o lawr yn fan acw," atebodd Gwen.

Cnociais ar ddrws tŷ Siôn Gruffudd, agorodd o'r drws. "Pwy wyt ti?" gofynnodd o.

"Rhys, rydw i wedi dod i weld Crach Ffnnant, ydi o yma?" gofynnais.

"Crach, mae rhywun o'r enw Rhys wedi dod i dyweld," gwaeddodd Siôn. Es i mewn i'r tŷ a'r peth cyntaf glywais oedd, "Rhys, rwyf i bum mlynedd yn hwyr!"

O na, y flwyddyn oedd popeth drosodd!



TEITHIAU CERDDED IONAWR 2015

Nos Fawrth 13 Ionawr 7.30yh

Darganfod y Sêr: Cyflwyniad i'r 'Cosmos' (1 milltir)
Dibynnol ar y tywydd. Angen dillad cynnes.
Ffoniwch Gareth Roberts ar 07867 810576 ar y diwrnod.

Gwener 16 Ionawr 10.00yb

Adeiladau Coll Bethesda a Coed y Parc (3 milltir)
Cychwyn: Spar Bethesda
Cymhedrol. Llwybrau Cyhoeddus. Angen sgidiau cerdded.

Iau 22 Ionawr 10.00yb

Cylchdaith Cwm y Glo a Stablau (3½ milltir)
Cychwyn: Menter Fachwen, Cwm y Glo
Cymhedrol. Llwybrau Cyhoeddus. Angen sgidiau cerdded.
Dathlu dwy flynedd o deithiau cerdded y 'Cynllun Cerdded a Darganfod'.
Hwn oedd y cyntaf!

Mercher 28 Ionawr 10.00yb

Darganfod Y Felinheli (1½ milltir)
Cychwyn: Y Felin Sgwrsio, Stryd Bangor, Y Felinheli
Taith yn adrodd ein darganfyddiadau o'r prosiect mapio'r Felinheli.
Eitha hawdd. Un bryn bach i'w ddringo.

Canolfan Cerdded a Darganfod Menter Fachwen

Apêl am lyfrau
Mae Menter Fachwen yn apelio i ddarllenwyr yr Eco am unrhyw lyfrau hanes, llyfrau o ddiddordeb lleol neu lyfrau natur, daeareg, seryddiaeth ayyb, ar gyfer llyfrgell i'w defnyddio o fewn y Ganolfan. Cysylltwch a Gareth Roberts yn Menter Fachwen ar 01286 872014.

Canolfan Cerdded a Darganfod Menter Fachwen

Ffair Nadolig a rhagflas o'r Ganolfan.
Ty Caxton (drws nesaf i'r 'laundrette'), Stryd Fawr, Llanberis
Dydd Mercher 17 Rhagfyr
10 o'r gloch y bore tan hwyr
Dewis o gacennau, jamiau, siytnis, blodau, anrhegion pren, mapiau a llyfrau hanes lleol. Rafflau.

Ffoniwch 01286 872014 am ragor o fanylion.



Y Bont

A dyma fi, yn pacio at benwythnos arall yn nhŷ Dad.

“Owain, sgen ti bob dim?”

Owain ‘di ‘mrawd bach i, mae o’n ofnadwy o anrhrefnus ac anghofus, ac yr un drefn ydi hi bob nos Wenar – “Mared, dwi di anghofio rwbath!”

“Oes ma’ gen i bob dim!” medda fo.

“Sanna?”

“Oes!”

“Trons glân?”

“Oes!”

“Brwsh dannadd?”

“Oes Mared! Stopia swnian. Rŵan tyd!”

Geshi’n llusgo lawr o’n stafell, lawr y grisia ag at y drws ffrynt. Mi ro’n i’n teimlo mraich i’n tynnu wrth i Owain weiddi.

“Tyd Mared, tyd!”

“Cer i ddeud ta ta wrth Mam gynta ia?” meddwn inna’n addfwyn.

Dwi wastad ‘di casáu deud ta ta wrth Mam. Dwi’m yn licio gadal hi ar ei phen ei hun yn y tŷ mawr ‘na. Ers iddi ysgaru ‘fo Dad ‘di hi’m run peth. Ma’r sbarc yn ‘i llygid glas glas hi, fel tonnau’r môr ar ddwrnod braf, wedi diflannu. Ma’r ddynes brydferth gyda bochau cochion, trwyn smwt a brychni haul, a gwefusau pinc fel rhosod bellach yn welw a’r brychni haul wedi gwisgo rywsut, a’i gwefusau’n sych grimp fel croen crocodeil. Wel ddim yn llythrennol ond fel ‘na ma’n teimlo, ‘di swsus Mam ddim hanner cystal ag odda nhw. Dwi’n gwbod bod o’n rhyfadd, ond dwi’m yn cal yr un don fawr o gariad yn dod drostai ar ôl sws ddim mwy, dim ond ton fawr o broblema i ychwanegu at y lleill.

Fi yn y canol, Mam ar un pen, a Dad ar y pen arall. Dwi’n teimlo mod i’n gwegian a weithia’ bod y cyfan yn mynd i ddod lawr o nghwmpas i. Ond mae’n rhaid imi fod yn gryf, a dal y cyfan er mwyn Owain, er mwyn Mam, er mwyn Dad, mae’n rhaid imi.

“Tyd Mam!” Llusgodd Owain Mam at y drws ffrynt.

“Dachi’n mynd yn barod?” meddai Mam yn syn.

“Chwech o’r gloch ddudodd Dad” meddwn i’n euog.

“Deda wrtho fo bo’ chi’m yn dod cyn saith tro nesa’ iawn?”

Rodd ‘i llais hi’n mynd yn fwy pigog bob llythyren. Nodiais fy mhen yn sydyn.

“Tyd Mared, fyddwn ni’n hwyr!” meddai Owain mewn llais niwsanslyd.

‘Drychais ar Mam.

“Fyddi di’n iawn?” sibrydais. Nodiodd Mam yn ara’ Ro’n i’n gallu gweld y deigr yn rhedeg lawr ei boch. ‘Drychais i ffwr’, toeddwn i’m isho gwynebu’i gweld hi fel hyn.

“Tara del.” Cusannodd Mam Owain. Rhoddais gwtsh iddi ac yna i ffwrdd â ni. Roedd Mam yn gwrthod mynd yn agos at dŷ Dad, dwn im pam, ond ma’ hi jest yn casáu’r lle medda hi. Ond y peth ydi, fedr hi’m osgoi’r lle, mae o ar ‘i stepan drws hi. Felly dani’n goro cerddad, fi, Owain, a’n bagiau. Ma’ pobol sy’n pasio ni mewn ceir yn sbio’n wirion arna ni. Ond dim ond pum munud lawr lôn ydi tŷ Dad sy’n handi mewn sawl ffordd. Nid yn unig ‘i fod o ar ‘yn stepan drws ni a fedr Owain a fi biciad yno fel liciwn ni, ond dwi hefyd jest abowt yn gallu gweld drwy ffenast’ stafall fyw Dad o’n llofft.

Fana mae o fel arfer, yn gwylio Match of the Day, does ganddo fo’m byd arall i neud, onibai am fynd i’w waith. Tydio’m yn ennill llawer, athro nofio rhan amser yn y ganolfan hamdden leol ydi o. Pres Mam odd yn cynnal ni dim ‘i bres o, felly fedrai’m dychmygu pa mor anodd ydi byw efo cyn lleied o bres. Dwi’n poeni amdano’n ofnadwy, dwi wastad yn checkio arno cyn mynd i ngwely. Ond fyddai byth yn gweld dim, dim ond goleuadau’r teledu’n fflachio a bob hyn a hyn mae o’n codi a gweiddi ar y teledu, yna’n mynd i’r gegin i nol diod.

“Dad, Daaad!” gweiddodd Owain. Clywais y drws ffrynt yn agor.

“Helo mêt!” meddai gan rwbio’i ben.

“A sud ydach chi?!” meddai wrthai dan chwerthin. Gwenais arno yna dechreuom ni chwerthin , yn union fel yr hen ddyddiau, ond roedd rhywbeth ar goll, toedd sŵn chwerthin Mam ddim yno. Stopiais yn sydyn. Sylweddolodd ei gamgymeriad. Cydiodd yn fy magiau a’n arwain i mewn. Clywais sŵn chwerthin Owain wrth imi gerdded i fyny’r grisiau i’n llofft. Clywais ei sgrech ddi-stop wrth i Dad ei gosi. Piti fod Mam ddim yma.

Agorais ddrws fy llofft. Roedd Dad wedi newid y gwely, rhoi bocs o siocledi a glasied o sudd oren ffres ar y bwrdd bach wrth y gwely. Es at y sillf ffenest i nôl llyfr, edrychais i fyny tuag at dŷ Mam. Toeddwn i’n methu’n glir a gweld dim. Dim ond diferion o law yn rhedeg lawr y gwydr.

Dwi’n cofio pan yn llai, eistedd o flaen y ffenest gyda Mam a Dad yn chwarae beth roedden ni’n ei alw’n ‘ras diferion’. Dwi’n cofio gwylio’r diferion yn ofalus i weld pa ddiferyn fyddai’n cyrraedd y gwaelod gyntaf. Chwarddais am eiliad, yna cofiais. Rhoddais y teledu ymlaen, yna es i hongian fy nillad. Dwi’n casáu cal dau o bob dim. Dau wely, dwy ddesg, dau gwpwrdd dillad, dau o bob dim. ‘Dio’m yn normal! Petha bach fel hyn sy’n mynd ar fy nerfa’i. Dwi jest isho bod yn ‘normal’, fel teuluoedd eraill. Eisteddais ar fy ngwely a dechreuais lefain. Meddyliais



am Owain, Mam a Dad. Meddyliais am y noson a glywais y drws ffrynt yn cau’n glep. Dad yn gweiddi, Mam yn sgrechian, Owain yn llefain, a finna’n sefyll yno fel cadach llawr yn rhythu ar y drws. Be dwi’n mynd i neud? Ma’ popeth rhy drwm i mi, ma’ na ormod o broblema’n pentyrru ar fy ‘sgwydda’ i.

Ma ffraeo Mam a Dad fel traffic yn taranu heibio uwch ‘y mhen i. Allai’m cadw fo o fynd yn llyfn. Ma’r cyfan yn rhy drwm imi, dwi’m digon cryf o ddal o, dwi’n ofn i mi syrthio. Be’ neith Owain wedyn? Allai’m gadael iddo fo fynd trw’ hyn ar ‘i ben ‘i hun, fyw imi. Hogyn bach ydio, dio’m yn dallt. Wel mae o’n dallt bod Dad ‘di symyd allan, bod Mam a Dad yn ffraeo drwy’r adeg a...dyna’i gyd. Allai’m dychmygu faint o gwestiyna’ sy’ ganddo fo’i ofyn, faint o ddryswch sy’n ‘i fywyd o, a faint mae’i ben o’n troi. Mae o’n hogyn bach yng nghanol problem fawr.

Ar ôl pendroni am oria’ ynglŷn a’r holl sefyllfa, mi benderfynais fynd i ngwely’n gynnar y noson honno. Roni’n meddwl y bysai cael noson dda o gwsg yn gneud byd o les i mi. Deffrais yn sydyn yn nghanol y nos yn chwys drostaf ar ôl cael hunllef ofnadwy. Help dwi’n boddi, dwi’n boddi. Ceisiais afael yn Owain ond roedd y dŵr yn fy rhwystro. ‘A fo ben bid bont’, rodd y chwedl yn troi yn fy mhen i. Ma’n rhaid i mi achub Owain, ma’n rhaid i mi achub Owain, y geiriau’n nofio’n y mhen i, un ar ôl y llall, mae’n rhaid i mi, mae’n rhaid i mi, mae’n rhaid i mi achub Owain.

Rhedais i ‘stafell Owain. Ochneidiais mewn rhyddhad pan welais ei ben yn gorffwys ar y gobennydd. Syllais arno. Be’ odd o di ‘neud i haeddu hyn? Es yn ôl i’n llofft. Eisteddais ar sillf y ffenest a gwyliais y sêr. Sylwais pa mor glir oedd yr awyr. Sylwais ar noson pa mor anarferol o hardd oedd hi. Ma’ na rwbath yn braf am wyllo’r sêr, dwi’m yn gwbod be’ ond ro’n i’n teimlo lot yn well. Roni jest yn gallu gadael yr holl broblemau i fynd, jesd am ychydig, dim ond ‘chydig o amser dwi angen. Ymhen ryw awran neu ddwy ddoth realiti nol atai, rodd yn rhaid imi gysgu i mi gal egni i bacio mhetha yn y bora.

Ar ôl noson hunllefus mi gysgais i tan tua unarddeg y bore yn y diwedd er imi ddeffro lawer o weithiau ar ôl mynd i gysgu. Es i lawr y grisia, troi i’r chwith, agor drws yr ystafell fyw, a dyna lle rodd Owain, ar y llawr yn chwara’ Lego yn ‘i byjamas Sam Tân, a Sbynj Bob ar y teledu’n y cefndir. “Iawn Ows?” medda fi’n sionc. Nodiodd ei ben.

“Be ti’n adeiladu?”

“Castell” meddai Owain yn frwdfrydig. Torrodd Dad ar ein traws.

“Be ‘dachisho i frecwast?”

“Wy di sgramblo” meddai Owain yn gyffrous. Tydan ni byth yn cael brescwast poeth yn nhŷ Mam, Dad odd y cwc, dim hi, felly mae cael brecwast poeth yn y bora yn rhywbeth cyffrous iawn i ni.


“Ga’i wy ‘di ferwi plis?” meddwn i.

“Ar y gair!” medda’ Dad gan fartsio o’r stafall fyw fel milwr.

Es at y bwrdd ac mi fwytom ni ein bwyd fel teulu wrth y bwrdd. Owain a’i wy di sgramblo, fi a nhost a jam a Dad a’i ‘bacon bap’. A cyn pen dim roedd hi’n amser mynd i dŷ Mam.

“Owain, dechreua hel dy betha’ Dani fod yn nhŷ Mam mewn llai na chwarter awr” gweiddais o dop y grisïa.
“Dwi’m yn mynd” medda’ Owain.
“BE?!”
“Dwi’m yn mynd....!”
Rhedais i lawr y grisïa.
“Dwi’m yn mynd” medda fo unwaith eto. Es i lawr i ar ‘y mhenglinia i’w gysuro. “O pam?” meddwn i’n addfwyn. Cododd o’i ‘sgwydda.
“Ows, ti’n gwbod allwn ni’m aros yma am byth...” Dim ateb.
“Dwi’n gwbod, allwn ni chwara’ Lego adra, gawni adeiladu....”
“NA!” rhedodd Owain fyny’r grisïa i bwdu. Oni wir yn mynd i ‘neud hyn iddo fo – gwahanu fo oddiwrth Dad?
“Bedi’r holl sw’n ma?” meddai Dad, wedi dychryn. Dyma’r peth ola’ oni isho, ffræ arall rhwng Mam a Dad – pwy sy’n cal cadw Owain – Mam neu Dad. Mae’r ddau mor styfnig a’i gilydd, toes na’m un ohonyn nhw’n camu nol mewn ffræ felly ma’n para orïa.
“Ma Owain isho aros efo chdi heno, dwi’m yn gwbod pam ond dyna ddudodd o”
“Wel mae o fyny iddo fo. Mae o’n hogyn ddigon mawr” meddai Dad. Meddyliais am ‘chydig.
“Be ddudith Mam”
“Paid a gwrn.....” llwyddodd i frathu ei dafod. Dwi’n gwbod be odd o’n mynd i ddeud, tydio’m yn cymryd ‘genius’! ‘Drychodd o arnai.
“Sori” medda’ fo. ‘Drychais i ffwrdd a gafaelais yn fy magia’.
“Owain, dwi’n mynd!” Agorais y drws a’i gau’n glep ar f’ôl. Roni’n gwbod be’ odd yn fy nisgwl i adra – Mam flin, bigog. Nesi gyrraedd o’r diwedd, rodd y daith yn teimlo’n hirach heb Owain.
“Helo!” meddai Mam gan agor y drws. Gwelais ei gwyneb hi’n disgyn.
“Lle ma’ Owain?” medda’ hi gan edrych ymhobman, nes ei bod hi’n edrych yn chwil.
“Odd o isho aros efo Dad”
“BE?!”
“Dwi’n sori!” medda fi. ‘Drychodd Mam arnai. Rodd hi’n edrych fel ei bod ar fin ffirwydro.
“Chdi sy’ di rhoi’r syniad ‘na yn ei ben o!”
“Naci, wir i chdi, fo odd isho!”
“Pam na nes di ei orfodi fo ddod efo chdi?!” medda’ Mam yn gandryll. Rhoish i ‘mhen yn ‘y nwylo. Oni’n gwbod mai hyn fysa’n digwydd. Ddyliwn i byth wedi ei adal o yna.
“Tyd!” medda’ hi gan gydio’n llaw i.
“Ile?” meddwn i.
“I dŷ dy dad.” Dwi’m yn meddwl mod i rioed di gweld hi ar gymaint o frys i fynd i dŷ Dad. Ma’ hi’n gwrthod mynd yn agos i’r lle fel arfar,


dim motsh be. Roni’n gallu deud bod hyn yn sirïys a bod na ufflon o le’n mynd i fod yn nhŷ Dad. Cnociodd Mam y drws. Teimlais ei llaw hi’n driplan o chwys wrth iddi wasgu fi’n dynn. Atebodd Dad y drws. Gwelais y sioc oedd ar ei wyneb, ei geg led y pen yn ‘gorad a’i lygaid yn rhythu ar Mam fel petai hi’n greadur o’r lleuad.
“Be ti’n da yma?” meddai Dad.
“Nôl ‘yn hogyn bach i!”
“Mae o’n fab i fi hefyd sdi, a beth bynnag, ‘i ddewis o ydio. Dwi’m yn gweld y plant hanner gymaint a ddyliwn i. Sgenti’m syniad sut dwi’n teimlo. Ti’n brifo’r plant wrth neud hyn hefyd ddim jest fi”. Edrychodd Mam arnai’n euog. Nodiais fy mhen yn araf, roni’n gwbod mai Dad oedd yn iawn ond tydwi’m isho ochri ‘fo neb. O’r diwedd daeth Owain i’r drws i dorri’r foment o ddistawrwydd. Agorodd Mam ei breichiau a rhedodd Owain ati.
“Gesdi hwyl?” meddai Mam yn falch o’i weld o.
“Do!” meddai Owain.
“Cer i hel dy bethau, dan ni’n mynd yn munud”. Nodiodd Owain ei ben a rhedodd i fyny’r grisïa. Yna, rhowliodd Dad ei lygaid a gwahodd ni fewn. Aeth Mam a fi’n syth fyny’r grisïa i helpu Owain bacio.
“Sdeddwch lawr” meddai Mam yn nerfus. Neshi afael llaw Owain ag isda i lawr.
“Rŵan dwi’n sylweddoli pa mor annheg ‘dwi ‘di bod efo chi. Wrach bo fi’m yn ‘i garu o, ond mae o’n ych caru chi. Fo di’ch tad chi. ‘Dwi’n sylweddoli rŵan y dylwn i di ‘neud lot mwy o ymdrech i fod yn ffrindïa’ efo fo. ‘Dwi mor sori.” Rhoddais i ag Owain gwtsh i Mam. Edrychodd Owain arni. Roedd y cyfan fel ei fod yn gwneud synnwyr rŵan. Y llefain, y gweiddi, pa mor oriog oedd hi. Efallai mai euogrwydd oedd o?
“Rŵan, ewch chi i chwarae lawr grisïa, nai orffan pacio”. Es i ag Owain i lawr grisïa. Dwi mor falch bod Mam di sylweddoli sut dani’n teimlo o’r diwadd. Fi odd yn pontio rhwng Mam a Dad, ond ddim mwy. Mae o fel bod o ‘di dymchwel a welai byth mohono fo eto.
Safodd Dad ar waelod y grisïa, roedd o’n amlwg wedi clywed. Gwenodd arnai, yna aeth i fyny’r grisïa. Aeth Owain a fi’n syth i’r ‘stafall fyw i chwara’ Lego (hoff gêm Owain). Adeiladon ni bont gryf a chadarn.
“Waw, ma’ honna’n ardderchog Owain.” Nodiodd Owain yn falch o’i waith caled. Roni’n gallu clywed Mam a Dad yn chwerthin uwch ein pennai ni fyny grisïa. Gwenais ar Owain. “Tisho mynd i nôl Mam a Dad i’w gweld hi?” Gwenodd Owain arnai yna chwarddodd.
Dani gyd yn mynd i fod yn deulu hapus rŵan, wrach bod Mam a Dad wedi gwahanu ond fedrith pawb fod yn ffrindïa, ac ma’n teulu ni ‘di profi hynny. Be’ bynnag ddigwyddodd rhwng Mam a Dad, mae o rŵan yn y gorffennol. Dwi’m yn y canol ddim mwy. Ma’ pawb ar yr un ochr.



E. W. Pritchard

Trefnwyr Angladdau


CENTRAL GARAGE
LLANBERIS
FFON- (01286) 870202



MORRIS BROS.

BECWS GORS BACH, CWM Y GLO
Ffôn: Llanberis 870430

HEFYD YM
MECWS PEN Y BRYN
LLANBERIS Ffôn: Llanberis 870268
70 STRYD LLYN CAERNARFON Ffôn: 675526



**Nadolig Llawen a
Blwyddyn Newydd Dda**

i’n holl
gwsmeriaid
oddi wrth bawb ym

**menter
fachwen**

(01286) 872014



EISTEDDFOD YSGOL BRYNREFAIL 2014

A'r neuadd dan ei sang fe gafwyd gwledd o gystadlu yn Eisteddfod Flynyddol Ysgol Brynrefail a ddechreuodd am 11 y bore cyn gorffen, yn ôl traddodiad Eisteddfodau gorau, yn hwyr y nos.

Bu unawdau, deuawdau, partïon, corau cyfan, actorion, dawnswyr, cerddorion, dawns flodau gosgeiddig a beirniaid y diwrnod sef Heledd Tandy a Lois Eifion Jones, y ddwy yn gyn ddisgyblion, yn llawn clod am y dalent y gwelsant ar y llwyfan.

Bu Cadeirio a Nia Haf Williams o flwyddyn 12 gipiodd y gadair eleni am stori fer a oedd, yng ngeiriau'r beirniad, yn llawn haeddu'r wobwr ymhlith gornest o gynigion o safon.

Cafodd Sara Dylan Williams o flwyddyn 9 y fraint o ennill Tlws yr Ifanc am ddarn o ryddiaith a oedd yng ngeiriau'r beirniad yn llawn haeddiannol o ennill ymhlith toreth o storiâu sylweddol.

Ar ddiwedd y noson Gwyrfai enillodd y tlws am y ty gyda'r cyfanswm mwyaf o farciau ac wedi cystadlu brwdfrydig roedd y tri thy arall yn agos iawn iddynt.

Ac felly fe ddaeth yr Eisteddfod I ben am flwyddyn arall. Yr ifanc yn barod i fwrw ymlaen at berfeddion y bore a'r rhai hyn yn barod am banad a gwely.



“Y byd i’n disgyblion a disgyblion i’n byd”



T4U

Eleni yr ydym yn ddiolchgar i Sioned, Elain, Kerry, Lois a Mared a drefnodd yr ymgyrch i gasglu bocsys ar gyfer plant difreintiedig yn Rwmania ar ran T4U (Christmas Child/Ymgyrch Plentyn y Nadolig gynt). Nid yn unig yn brysur yn trefnu ond hefyd yn sicrhau trwy eu gwaith mai Ysgol Brynrefail unwaith eto gasglodd y nifer mwyaf o focsys, 200, yng Ngogledd Cymru. A dyma'r ail flwyddyn yn olynol i Brynrefs gasglu'r nifer mwyaf!!!

Genod Brynrefs – da ‘de

Glywsoch chi?


Trac ‘Rhyw Bryd’, gan Magi Tudur, fu ‘Trac yr Wythnos’ ar Radio Cymru o ddydd Llun yr 8fed o Ragfyr ymlaen.

Mae hyn yn golygu bod y trac wedi cael ei chwarae o leiaf 3 gwaith y dydd, ar raglenni Dylan Jones, Tommo, a Geraint Lloyd.

Yr ydym yn hynod falch fel ysgol, o gael merch mor dalentog â Magi yn un o’n disgyblion, a phleser i ni a Radio Cymru ydi cael rhannu ei thalentau efo gweddill Cymru.

Geneth Brynrefs –da ‘de

Llygredd yn Afon Nant Peris



Ar fore dydd Iau olaf Tachwedd cafodd Huw Hughes, Ysgrifennydd Cymdeithas Pysgotwyr Seiont, Gwyrfai a Llyfni, alwad ffôn yn dweud fod carthion yn arllwys i'r afon yn Nant Peris. Ymwelodd â'r safle, ac y mae'r lluniau ar y dudalen hon yn dangos yr hyn a welodd: papur toiled, carthion dynol a physgodyn wedi marw. Ffoniodd linell argyfwng Cyfoeth Naturiol Cymru, a chafodd atebiad prydlon iawn yn nodi y byddai un o'u swyddogion yn ymweld â'r safle.

Ar fore Llun, 1af o Ragfyr y cafodd yr alwad nesaf. Adroddwyd iddo fod swyddogion o Cyfoeth Naturiol Cymru a Dŵr Cymru wedi ymweld â'r safle. Er mawr syndod iddo, dywedwyd nad oedd unrhyw arwyddion fod carthion wedi arllwys i'r afon. Am hanner dydd yr un diwrnod, ail-ymwelodd â'r safle, a chael fod carthion yn parhau yn yr afon, o bosib, yn ychwanegol i'r arllwysiad a welodd dri diwrnod ynghynt.

Ysgrifennodd llythyr ar ran y Gymdeithas Pysgotwyr i bennaeth Cyfoeth Naturiol Cymru yn y gogledd, sef Tim Jones. Cafodd yr "Eco" gopi o'r llythyr hwnnw sy'n nodi'r ffeithiau uchod. Derbyniodd gydnabyddiaeth o dderbyn y llythyr.

Trwy gyd-ddigwyddiad, roedd aelodau o Bwyllgor Pysgodfeydd Lleol yn cyfarfod yn Nolgellau fore dydd Mercher 3ydd o Ragfyr. Yn rhinwedd eiswydd fel ysgrifennydd y Gymdeithas Pysgotwyr, roedd Huw Hughes yn bresennol.


Yno hefyd roedd un o swyddogion Cyfoeth Naturiol Cymru. Unwaith yn rhagor, honnai'r swyddog nad oedd unrhyw arwyddion o garthion yn arllwys i'r afon. Gofynnwyd am gyfarfod ar y safle y prynhawn hwnnw.

Ar y prynhawn Mercher cyfarfu Huw Hughes ac un o swyddogion Cyfoeth Naturiol Cymru yn Nant Peris. Dangoswyd y llygredd i'r swyddog, a nododd nad oedd llygredd yn bresennol pan ymwelwyd â'r safle ar y dydd Iau olaf yn Nhachwedd. Trefnwyd i un o swyddogion Dŵr Cymru ddod yno, a chymerwyd samplau o'r carthion.

Mae'r "Eco" yn manylu ynglŷn â dyddiadau er mwyn dangos fod wythnos wedi mynd heibio cyn i Cyfoeth Naturiol Cymru a Dŵr Cymru dderbyn fod carthion yn arllwys i'r afon. Cawsant rybudd fod hyn yn digwydd ar fore Iau. Roedd yn brynhawn Mercher dilynol arnynt yn cydnabod fod carthion yn yr afon, a hynny ar ôl gwadu'r ffeithiau ddwywaith. Am wythnos gyfan felly, roedd carthion yn arllwys i'r afon yn Nant Peris, a'r llygredd maes o law yn cael ei gario i Lyn Padarn.

Pa mor bwysig tybed yw glendid ein dyfroedd naturiol i'r ddau gorff sy'n gofalu amdanynt? Ond yn bwysicach na hynny, pa mor bwysig yw iechyd y cyhoedd?

Fel roedd yr "Eco" yn mynd i'r Wasg, doedd y Gymdeithas Pysgotwyr ddim wedi derbyn ateb i'w llythyr nac wedi derbyn gwybodaeth am ganlyniad y samplau a gymerwyd o'r afon.





Clwb Merched Cafwyd noson arbennig o hwyllog yn y Clwb Merched fis Tachwedd yng nghwmni Jill o Rhosbach fu'n arddangos a chynnal gweithdy i wneud torch Nadoligaidd. Dyma lun o Jill yn arddangos, cyn i ni i gyd ddechrau ein torch ein hunain. Llawer o ddiolch iddi am noson ddifyr iawn. Dymuna'r pwyllgor Nadolig Llawen iawn i bawb a bydd y Cinio Nadolig yn Y Felin nos Wener, Rhagfyr 12.

Tynfa Misol Bydd canlyniad tynfa mis Rhagfyr a'r dynfa Nadolig yn rhifyn nesa'r Eco.

Sgwarnaw.

Defnyddiwch y llythrennau (unwaith yn unig) i ffurfio geiriau pedair llythyren neu fwy. Cofiwch mai un llythyren yw ch, dd, ff, ng, ll, ph, rh a th. O ddefnyddio'r holl lythrennau gallwch ffurfio gair sy'n ymwneud â'r Nadolig. Rhaid defnyddio'r llythyren yn y sgwâr canol ym mhob gair.

10 gair = da;

15 gair = da iawn;

18 gair neu fwy = ardderchog.

Mae'r atebion ar dudalen 8

N	Y	C
A	Ch	R
O	F	I

ATEBION Y CWIS

1) Alun Vaughan yr enillydd – postmon.

2) Colegau Cymru -19

3) Johnny Wilkinson, Neil Jenkins, Dan Carter

4) LLANDudno Junction, LLANrwst, LLANDyrnog,

LLANfairpwll

5) Warburton, Williams

6) Leighton Aspell

7) Ronnie O'Sullivan

8) Gwlad yr Haf (Somerset)

9) Seland Newydd (Wellington)

10) Cottrell, Jason-Kanu



blwyddyn 5 yn plannu

Newyddion yr ysgol gan y disgyblion.

Mae aelodau o'r Eglwys yn ymweld bob pythefnos i ddarllen stori o'r Beibl i ni. Rydym yn hoffi clywed y straeon a cymryd rhan yn y gwasanaethau 'Agor y Llyfr'.

Rydym wedi cymryd rhan mewn nifer o weithgareddau gyda 'Menter Fachwen'. Yn mis Hydref buom yn plannu bylbiau clychau'r gog yn y parc, ac yn ddiweddar aethom efo Maggie i blannu bylbiau cennin Pedr tu allan i Ysgol Brynrefail. 'Da ni wrth ein boddau yn cael helpu Menter.

Mae pawb yn falch ein bod ni wedi llwyddo i gael gwobr efydd Siarter Iaith Gwynedd. Aeth Ethan a Dion draw efo Miss Jones i'r seremoni wobrwyo yn ysgol yr Hendre a dod â'r dystysgrif yn ôl i'r ysgol.

Cafodd pawb hwyl yn noson Bingo a Ffair Nadolig y Cyfeillion. Y rhieni oedd wedi trefnu y noson. Diolch yn fawr iawn iddynt am ei gwaith caled ac am roi arian i ni gael cyfrifiaduron newydd yn yr ysgol.



Isabel ac Alex

Mae 'Cwmni Da' wedi bod draw yn ein ffilmio yn canu carol ar gyfer y sgrin fawr yng Nghaernarfon. Rydym yn gobeithio byddwch yn ein gweld a'n clywed wrth i chi wneud eich siopa Nadolig.

Bydd ein cyflwyniadau Nadolig wedi bod erbyn i'n newyddion ymddangos yn y papur. Mae dosbarth y babanod yn mynd â ni i Fethlehem tra bydd yr adran iau yn canu carolau gyda'r gymuned ar fuarth yr ysgol.

Mae pawb yma yn dymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chi.

Llongyfarchiadau i Edwina ac Alwyn Foulkes, 12 Dôl Afon, ar enedigaeth wŷr bach, Caleb, a anwyd i Anthony a Gwyneth, brawd bach i Siwan.

Cyfarchion y Tymor Dymunwn Nadolig Dedwydd a Blwyddyn Newydd Dda i bawb yn y pentref.

ECO'r Wyddfa

Nadolig Llawen i bawb



CYFARCHION Y TYMOR ODDI WRTH

DENNIS ROBERTS

(Glyn Roberts a'i Fab)

DYNION GLO LLANRUG

Ffôn: 675043

Diolch am eich cefnogaeth drwy'r flwyddyn



Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth bawb yn

Sychlanhau

Altro

Ailwnio

54 Stryd Fawr, Llanberis

Ffôn: 870088

SWIGOD A SEBON



GWASANAETH GOLCHI A SMWDDIO

Nadolig Llawen a Blwyddyn

Newydd Dda oddi wrth

**BRYN AFON
ENGINEERING LTD
PEIRIANWYR MECANYDDOL**

Arbenigwyr mewn pob
math o waith metel

GWAITH BRYN AFON

LLANRUG, Ffôn: 675523



Dylan Griffith

Trefnwr Angladdau Annibynnol a Lleol

TROS-Y-WAEN PENISARWAUN

Gwaith Cerrig Beddi

Gwasanaeth Teimladwy a Phersonol

24 Awr y Dydd

Capel Gorffwys Preifat

Yn Gwasanaethu Yr Holl Ardal

Ffoniwch DYLAN ar 01286 871833 (SYMUDOL- 07778127394)

Hefyd



CERBYDAU CLASUROL YR WYDDFA

*Cyrhaethwch Mewn Steil Mewn Cerbyd Rolls Royce
AR GYFER PRIODASAU, PENBLWYDD ac ACHLYSURON ARBENNIG ERAILL*

**NADOLIG LLAWEN
A Blwyddyn Newydd Dda**

Oddiwrth Elaine a Staff



**Elaine's
Llanrug**

Siop Trin Gwallt a Harddwch

Ffon 01286 672 023



Antur Wauinfawr



**NADOLIG LLAWEN
A BLWYDDYN
NEWYDD DDA**

*i holl gyfeillion yr Antur
ym mro'r Ecol*

www.anturwauinfawr.org
01286 650 721

*Nadolig Llawen
a Blwyddyn
Newydd Dda
i'n holl gwsmeriaid
ac i bawb ym mro
Eco'r Wyddfa*



oddi wrth

WAVELL'S

**Bryn ac
Angela Williams**

CIGYDD

**LONDON HOUSE
LLANRUG**

Ffôn:

Caernarfon 673574

**PEN CIGYDD Y FRO
MYNNWCH Y GORAU
A DEWCH ATOM NI**

**Nadolig Llawen
a diolch am eich
cefnogaeth**

**Blodau
Racca**

Penisarwaun Ffôn: 870605

**Rithoedd Celyn,
Coed Nadolig, 'Crem Pots' a
Rithoedd Drws.**

**Basgedi Planhigion,
Trefniadau blodau Silc.**

RHODD O'R GALON YW BLODAU



**Nadolig Llawen a
Blwyddyn Newydd
Dda oddi wrth**

Richard S. Humphreys



**ORIEL
CWM
Cwm-y-glo**

Ffôn/Ffacs: (01286) 870882

Gwasanaeth Fframio

Lluniau o bob math ar gael ar y safle

Prisiau Rhesymol

*Arddangosfa o luniau gwreiddiol
gan Artistiaid Lleol*

Diolch yn fawr i'n cynghorydd Elfed Williams am ei waith inni fel ardal yn ystod y flwyddyn. Rhwng pob dim mae wedi cael ei gadw yn brysur iawn yn ystod y flwyddyn rhwng pawb o drigolion yr ardal. Diolch yn fawr iawn i ti, Elfed, a mwynha dy Ddolg heb broblemau gobeithio.

Gwella Da yw deall fod Myfi Peris Evans, Sŵn yr Awel, wedi gorffen ei thriniaeth ac rydym yn falch o ddweud ei bod yn gwella. Braf ei gweld allan unwaith eto. Araf deg, Myfi, paid â gwneud gormod.

Tymor y Gaeaf Y gaeaf erbyn hyn wedi cyrraedd a phen yr Wyddfa yn wyn, ac y mae wedi oeri yn arw. Gweithgareddau y gaeaf i gyd wedi cychwyn a llawer un dan anwyd trwm. Ni chafwyd llawer o eira yn ystod y gaeaf diwethaf, gan obeithio yn fawr mai felly y bydd hi eleni, a gobeithio y cawn nerth ac iechyd i wrthsefyll yr oerni. Pawb i gadw yn gynnes oherwydd unwaith y bydd y Nadolig drosodd, bydd y dydd yn ymestyn unwaith eto a chyn inni droi, bydd tymor y gwanwyn hefo ni.

Nadolig Dymunaf Nadolig Llawen iawn i holl ddarllenwyr yr Eco ac, wrth gwrs, cofion annwyl iawn at Mrs Alice Griffith fydd yn y cartref ym Mangor dros y gwyliau. Gobeithio eich bod yn cadw yn weddol. Hwyl yr Ŵyl a pheidiwch â bwyta gormod.

Sefydliad y Merched Cynhaliwyd Cyfarfod Blyneddol y gangen yn y Caban nos Iau, Tachwedd 20fed. Croesawyd Margaret Lloyd Jones atom fel cynghorwr ynghyd â'i ffrind, Gwenda. Ail-etholwyd y swyddogion am y flwyddyn 2015 a thalwyd diolch gan y Llywydd, Pat Jones, i bawb o'r aelodau am eu gwaith caled a'u cefnogaeth drwy'r flwyddyn. Cawsom sgwrs adeiladol gan Margaret am lyfryn gwybodaeth y Ffederasiwn. Croesawyd Julia atom fel siaradwraig a rhoddodd arddangosfa gwaith siwgr i'w roi ar gacennau Nadolig. Cafodd nifer o'r aelodau gyfle i greu addurn siwgr eu hunain – noson ddifyr a phawb wedi mwynhau.

Nos Wener, Rhagfyr 5ed, aeth nifer dda o'r aelodau i'r Gwasanaeth Carolau Grŵp Eryri a gynhaliwyd eleni yn Eglwys y Waun, Waunfawr. Dan ofal Gwyneth fe drefnwyd parti o'r aelodau i gymryd rhan yn y gwasanaeth a diolchwyd

yn gynnes iddi gan y Llywydd. Cawsom noson hyfryd o ganu carolau dan arweiniad Lowri Prys Roberts ac amrywiaeth o ddarlleniadau gan aelodau Sefydliadau Merched Grŵp Eryri.

I gloi gweithgareddau'r flwyddyn, does dim ar ôl yn awr ond edrych ymlaen am ein Cinio Nadolig Blyneddol yn y Caban nos Iau Rhagfyr 18fed.

Ffair Grefftau Dydd Sadwrn, Tachwedd 29ain, cynhaliwyd Ffair Grefftau yn Caban. Bu'n ddiwrnod llwyddiannus gyda nifer o grefftwyr lleol yn arddangos eu gwaith.

Yr Eglwys Bresbyteriaidd

Dathlu'r Nadolig Bydd yr aelodau yn dathlu Gŵyl y Geni gyda gwasanaeth o fyfyrddau, llithoedd a charolau. Bydd y casgliad eleni yn mynd at waith Cymorth Cristnogol.

Cyfarchion Dymunwn anfon ein cofion ar derfyn blwyddyn arall gan ddymuno Nadolig Dedwydd a Blwyddyn Newydd Fendithiol i'n haelodau a'n cydnabod oll.



FFRAMIA
Parc Padarn Llanberis
(01286) 870922

Gwasanaeth FFRAMIO LLUNIAU

DEWIS EANG O LUNIAU YN YR ORIEL AC AR Y WEFAN
William Selwyn, Rob Piercy, Keith Bowen, Keith Andrew a mwyr

www.fframia.com

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth

PAT AC EDGAR

SWYDDFA'R POST

LLANRUG

Ffôn: (01286) 672422




NADOLIG LLAWEN
A BLWYDDYN NEWYDD DDA

Oddiwrth Dylan A'r Staff

SHOP CHIPS TEGFAN

Y SGWÂR LLANRUG

(01286) 671211

NADOLIG LLAWEN
I CHWI OLL!

BARRYS GLASS

FFENESTRI • DRYSAU
Conservatori UPVC

Trwsio Unedau
DOUBLE GLAZING

Trwsio a Gosod Gwydr

(01286) 872772
Symudol- 07840 794269

PROBLEM GYDA'CH CYFRIADUR?

Am wasanaeth cyfeillgar i ddatrys
A GWELLA EICH CYFRIADUR

Cynylltwch a

GOMER ROBERTS

Cymorth a hyfforthiant amyneddgar i bob oedran er mwyn i chi fedru mwynhau defnyddio eich cyfridiadur

(01286) 870462 Symudol-07962 712368

Oedfaon Ionawr 2015

- 4 am 5.00: Gwasanaeth Naw Llith a Charolau yng Nghapel y Rhos, Llanrug ar y cyd â'r Eglwys yng Nghymru
 - 11 am 5.30: Gwasanaeth i ddathlu Gŵyl Ystywl dan arweiniad y Canon Idris Thomas, Deiniolen
 - 18 am 5.30: Mr Richard Lloyd Jones, Bethel
 - 25 am 5.30: Parch Cath Williams, Caernarfon
- Gweinyddir y Sacrament o Swper yr Arglwydd.

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth bawb yn

WELDPAR

CYMRU WALES

CANOLFAN OFFER WELDIO

WAUNFAWR Ffôn: 650720



MODURDY'R WYDDFA

Snowdon Garage LLANBERIS

MOT • GWASANAETH CYNNAL A CHADW

NADOLIG LLAWEN
A Blwyddyn Newydd Dda

(01286) 870225



BYSUS RHIWLAS

BYSUS BACH A MAWR
ar gael ar gyfer pob math o LOGI PREIFAT
Nosweithiau allan, Partion, Triplau ac ati.
Am wasanaeth personol a thelerau rhesymol-
Ffoniwch **(01248) 361044**

D. P. OWENS RHIWLAS



COFIO GŴR Y LLYS

Tua phedair blynedd a mwy yn, ôl piciais draw i aelwyd Llys, Brynrefail, i sôn am fy mwriad i groniclo hanes a bywyd William Hugh Griffith mewn llyfr O'r Castell i'r Llys. Gwyddwn ei fod wedi cael bywyd amrywiol ac anhygoel, ei fod wedi cyflawni cymaint ac nid oeddwn am i'r cyfan fynd yn angof. Edmygaf bobl sy'n mentro erioed ac, yn achos W.H. Griffith bron drigain mlynedd yn ôl, nid oedd hynny yn hawdd ar lawer cyfrif ond fe lwyddodd yn ddiamheuol. Cynnes oedd y croeso y diwrnod hwnnw imi a chytunodd yn ddiolchgar i sôn am ei fywyd a balch oedd o'r cynnig.

Yn ôl ei arfer, gwisgai'n daclus ond y tei oedd ganddo oedd y bwysica ac a roesai gryn falchder iddo gyda'r llythrennau F.R., Ag, S arni yn dynodi ei fod yn Gymrawd y pedair Sioe Amaethyddol Frenhinol yma yng Nghymru, yr Alban, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Bob wythnos o hynny ymlaen gelwais ar ei aelwyd i gofnodi ei hanes a chanfod fod ei gof yn anhygoel. Cofiai ddigwyddiadau, dyddiadau ac enwau fel tae hi'n ddoe. Eisteddem yn un o ystafelloedd hardd ac eang y tŷ, lle roedd lluniau o geffylau, y gwobrau gafodd a lluniau'r teulu o'n cwmpas. Wynebai sedd William Griffith ffenestr fawr lle gwelai, yn ddyddiol, rhai o'i geffylau gwedd yn pori'n hamddenol yn y cae cyfagos. Ar fore ei farwolaeth (10 Tachwedd), cyrhaeddais ei aelwyd yn drist ar ôl clywed ei fod wedi ein gadael, a sylwi fod y ceffylau gwedd, mawr a bach, wedi ymgasglu gyda'i gilydd wrth gefn y tŷ, yn gynulleidfaw dawl a syn fel pe baent yn talu gwrogaeth i'r un a roesai oes gyfan i'w gwarchod fel brid a'u diogelu i'r dyfodol.

Yr hynaf o dri phlentyn Hugh a Ceridwen Mary oedd William Griffith ar fferm Castell ym Mhentir ac fe'i ganed ar y 29ain o Hydref 1927. Collodd ei frawd Owain yn 2004 ac yn Nulyn mae ei chwaer Gwenno Wyn yn byw. Roedd ei rieni yn ysbrydoliaeth iddo a disgrifiai ei dad fel un gonest a da a'i fam fel un hynod weithgar - cafodd hi oes hir gan iddi farw yn 99 mlwydd oed yn Nhachwedd yn y flwyddyn dwy fil. Soniai hefyd, a hynny yn uchel iawn, fod bywyd, gweithgareddau a phobl ei gymuned pan yn blentyn ac yn ifanc wedi cael cryn ddylanwad ac effaith arno. Ar ôl dyddiau ysgol yn Rhiwlas, Deiniolen a'r Uwchradd ym Brynrefail hyd bymtheg oed, mwynhaodd yn ystod cyfnod yr Ail Ryfel Byd ei amser yng Ngholeg Amaethyddol Madryn ym mherfeddion gwlad Llŷn. Gwaith, dysgu a hwyl oedd ei ddisgrifiad o'i brofiad yno ac, ar ddiwedd y cwrs, daeth adre'n ôl i Castell, yn ei eiriau ei hun yn aeddfetach dyn ac yn barod am fywyd.

Droeon soniodd wrthyf am ddau ddigwyddiad wnaeth newid ei fywyd a hynny o fewn blwyddyn i'w gilydd. Y cyntaf oedd prynu Llys yn Hydref 1953 ac ar Llun y Pasg 1954 (19eg Ebrill) priodi Elspeth yn Eglwys Crist Llandinorwig. Hoffais yr hyn a ddywedodd, yn nodweddiadol ohono, wrth Hugh Jones, Albert House, Deiniolen, ei thad, am ei fwriad i briodi Elspeth - "Dwi ddim eisiau dim oddi yma ond Elspeth!" Bu Elspeth yn rhan annatod o'i fywyd cynhyrfus a phrysus oedd i ddod, a throeon mynegodd na fyddai wedi cyflawni'r cyfan oni bai ei bod wrth ei ochr ar hyd y daith.

Crafu byw oedd hi yn Llys, a sylweddoli nad oedd y fferm yn ddigon o faint i wneud bywoliaeth lawn. Ond mewn bywyd mae bod ar groesfordd weithiau yn arwain at waredigaeth, a dyna ddigwyddodd. Rhoddodd fenter, gweledigaeth praff, pendantsrwydd diwyro, unplygrwydd cadarn a thorchllywys ar waith. Roedd y ddeuoliaeth o fyd y ceffylau a'r byd ymwelwyr yn hynod ddiddorol ac ynddynt roedd William Griffith yn troi ymysg bonedd a gwreng ac roedd yn berffaith hapus yn y ddau fyd. Menter



newydd iddo oedd cadw ymwelwyr a olygai ddysgu'r cyfan o'r dechrau ac nid oedd yn hawdd, ond roedd byd y ceffylau yn dalent gynhenid ganddo eisoes a rhof sylw sydyn i'r ddeubeth.

Llwyddiannus oedd y Parc Carafannau a hynny mewn cyfnod lle roedd arall gyfeirio ar ffermydd yn rhywbeth dieithr ac nid oedd grantiau i'w cael i roi hwb i'r fenter. Bu'r busnes yn gynhaliath i'w deulu, cyflogaeth i bobl leol, ac i'r llu ymwelwyr a ddaeth yno i'r safle godidog, roedd golygfeydd heb eu hail o'u cwmpas. Atgoffodd fi droeon nad ar chwarae bach y llwyddodd y cyfan - "Dechreuom heb ddim ac felly rhaid oedd gweithio'n hynod galed."

Ond fel y gwyddom, ar wahân i redeg safle carafannau, roedd byd arall a oedd yn rhan annatod o'i wead ac a fynegwyd ganddo i hun - "ni allaf gofio cyfnod yn fy mywyd heb geffyl."

Dechreuodd ymdrin â Cheffylau Gwedd pan yn ddeg oed wrth helpu ei dad i fridio ceffylau yn Castell gogyfer â'r pyllau glo. Cofir am ddawn William Griffith fel bridwr, cystadleuydd a beirniad o safon heb anghofio allforio ceffylau i rannau o'r byd. Yr oedd i'w enw ef ei hun a'r brid 'Trem y Wyddfa' barch mawr. Cyrhaeddodd yr uchel fannau yn sicr pan enillodd ei gasg "Jim's Chance" gystadleuaeth Ceffyl y Flwyddyn yn Wembley yn 1984. Bum mlynedd yn ddiweddarach enillodd yr hyn a ddisgrifiai ef ei hun fel "yr Anrhydedd fwyaf" sef gwobr goffa Syr Bryner Jones yn Sioe Amaethyddol Frenhinol Cymru yn Llandudno, a hynny am wneud y cyfraniad mwyaf i ddatblygiad a gwelliant y ceffyl gwedd.

"Roeddwn yn fy seithfed nen," meddai a braint fawr ychwanegol iddo ef ag Elsbeth oedd derbyn y tlws gan Idwal E. Symonds, Llywydd y Sioe Frenhinol, a aned ar fferm y Fachell yn Llanddeiniolen, fferm gyfagos iddo pan yn blentyn. Llwydd anrhydeddwyd ef â gwobr Syr Peter Crossman am wasanaeth oes i Gymdeithas y Ceffyl Gwedd - Cymdeithas y meddyliai y byd ohoni a gwasanaethodd ar ei phrif bwyllgorau am ddegawdau. Bu'n ymwneud hefyd ag Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr ac yn Gadeirydd Panel Atal Troseddau o fewn y Sir a llawer mwy.

Dylanwadodd crefydd arno pan yn blentyn ac yn ifanc a hynny pan fynychai y Capel a'r Ysgol Sul yn Rhiwlas. Edmygai'n fawr y Gweinidog a'i derbyniodd yn gyflawn aelod yno, sef y Parch Elias Hughes. Roedd cadwraeth y Sul drwy'i oes yn rhinwedd mawr iddo. Ymfalchiai yn fawr yng nghysylltiad ffyddlon Elspeth ag Eglwys Llandinorwig a derbynai y ddau Gymun ar eu haelwyd gan y Parch Carol Roberts a Derek Jones yn gyson.

Ei deulu cyfan oedd yn ganolog iddo a bu'n garedig tuag atynt a chydymdeimlir â hwy oll. Daeth tyrfa fawr i'w angladd yn Eglwys Llandinorwig ar Sadwrn, 15fed Tachwedd, a dygwyd ef ar ei daith olaf o'r Llys i'r Eglwys gan ddau geffyl gwedd. Roedd yn 87 mlwydd oed a rhoddwyd ef i orwedd gyda Celyth, y mab tair wythnos oed, a gollwyd.

Rhyfeddol yn wir fod William Hugh Griffith wedi cyflawni cymaint yn ystod ei oes ac wedi cyrraedd yr entrychion.

Geiriau olaf ei lyfr sy'n cloi hyn o goffad gennyf - "Mae'r ceffylau gwedd yn fy ngwaed a chefais wneud yr hyn a ddymunais ers yn blentyn. O gael ceffyl gyda thrwyn Normanaidd, gwddf iawn, y cefn heb fod yn rhy hir, y coesau ôl yn lân a'r traed yn iawn, roeddwn yn fy elfen. Rwyf yn cyfrif fy hun yn hynod lwcus mewn bywyd ac nid wyf yn edifar am ddim byd." Coffa da amdano.

Idris Thomas.



Cyfeillion Plas Pengwaith Enillydd y Bêl Bonws am fis Tachwedd oedd Mrs Mairwen Baylis.

Cyfarchion Gan na fydd Mrs Nan Owen, 8 Rhes Efrog, yn anfon cardiau Nadolig eleni, hoffai ddymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'w holl deulu a chyfeillion. Yn hytrach bydd yn anfon cyfraniad ariannol i Nyrus Marie Curie.

Cyfarchion Nadolig Gan na fydd yn anfon cardiau eleni, dymuna Louie Pritchard, Dôl Eilian, ddymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb a diolch arbennig i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am y cymorth a dderbyniodd drwy'r flwyddyn.

Dymuniadau Nadolig Dymuna Eunice Roberts, 15 Maes Padarn Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'w theulu, ffrindiau a chymdogion

gan na fydd yn anfon cardiau eleni.

Cyfarchion yr wyl Mae Beth a Fred Owen, Garreg Wen, Ffordd Tŷ Du, yn dymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb gan na fyddant yn gyrru cardiau eleni.

Diolchiadau Dymuna June, Keith a theulu'r ddiweddar Mona Wyn Jones, 17 Dôl Eilian, Llanberis, ddiolch yn ddiffuant i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad tuag atynt yn eu profedigaeth o golli Mam, Mam-yng-nghyfraith Nain a Chwaer mor annwyl. Diolch am y llu cardiau, galwadau ffôn, pob ymweliad a'r cyfraniadau at Ward Conwy, Ysbyty Gwynedd. Diolch arbennig i'r Parchedig Ddr Carol Roberts a Derek Jones am eu gwasanaeth teimladwy ac i Mrs Heather Lynne Jones, yr organyddes. Hefyd, diolch i Gwynfor a Jane o E.W.

Pritchard, Central Garage, Llanberis am eu trefniadau trylwyr ac i staff Ward Aran/Conwy, Ysbyty Gwynedd am eu gofal.

Papurau Newydd Ganrif yn ôl Yn yr Herald Cymraeg ar 15fed o Ragfyr 1914, o dan Newyddion Llanberis fe nodir fod Ymddiriedolwyr Goodman, Tlodion Rhuthun i ni heddiw, wedi meddiannu dwy res o dai, sydd heb eu henwi, yn Llanberis, oherwydd bod y les wreiddiol wedi dod i ben.

'Roedd hefyd fwriad gan yr Ymddiriedolwyr i newid enw ffordd "Ceunant Coch" i "Goodman's Ravine". Dydw i ddim wedi darganfod, eto, pam nad aed ymlaen a'r syniad ... buasai wedi ei gwneud hi'n llawer haws i ymwelwyr yr oes hon ddod o hyd i'r "Hostel" uwchben "Goodman's Ravine"!

Bore Coffi Cafodd Y Copa,

Llanberis, bleser mawr yn cynnal Bore Goffi mis diwethaf, er budd Tim Achub Mynydd Llanberis. 'Roedd digonedd o gacennau blasus a bisgedi cartref i'w bwyta, a nifer o wobrau raffl, i gyd wedi cael ei rhoddi. Hoffem ddiolch i bawb a gefnogodd yr achos. Fe godwyd £245 tuag at Dim Achub Mynydd Llanberis. Dyma lun o'r gwirfoddolwyr ifainc gyda Edwin Roberts, gwirfoddolwr Tim Achub Mynydd Llanberis. Edrychwn ymlaen am yr Bore Coffi nesaf!

Cyfarchion: Dymuna Myrddyn ac Annie Pritchard, 1 Ffordd Padarn, Llanberis Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'w teulu, ffrindiau, cymdogion a gofalwyr, gan ddiolch am bob caredigrwydd a chymorth a dderbyniwyd oddi wrthynt ar hyd y flwyddyn ddiwethaf. Ni fydd modd iddynt anfon cardiau Nadolig eleni.

FFERM FÊL YR WYDDEA

NADOLIG LLAWEN

A BLWYDDYN NEWYDD DDA

SNOWDON HONEY

FARM

STRYD FAWR LLANBERIS

Ffon- 870218

Diolch am eich cefnogaeth drwy'r flwyddyn

GWIN A MEDD




Royal Victoria Hotel LLANBERIS

www.theroyalvictoria.co.uk

Dathliadau • Achlysuron Arbennig • Cynadleddau
Pwyllgorau • Bwydlen Bar • Cinio Dydd Sul
• PRIODASAU •

Ffôn- 01286-870253
enquiries@theroyalvictoria.co.uk

The ROYAL VICTORIA HOTEL
Snowdonia



Cofiwch Ddefnyddio

SWYDDFA POST BETHEL

(01248) 670261

CEWCH CROESO CYNNES GAN CLED A SUSAN A'R TEULU

COFIWCH AM EIN GWASANAETH NEWID PRES TRAMOR YSWIRIANT, TALU BILIAU ETC.

Yn Ogytal a
Gwasanaethau Arferol Swyddfa'r Post

A HEFYD PAYPOINT, LOTERI,
A PHEIRIANT TYNNU PRES (CASHBACK)

DIOLCH AM EICH CEFNOGAETH DRWY'R FLWYDDYN

a Nadolig Llawen a BLWYDDYN NEWYDD DDA I BAWB

ORIAU AGOR
5.30am-7.30pm (Llun-Sadwrn)
5.30am-3pm (Sul)
10am-12pm (Diwrnod Nadolig)



YSWIRIANT FUW

Hoffech chi hybu
BWYD LLEOL
BUSNESAU CEFN GWLAD
ECONOMI WLEDIG

Trwy gefnogi Yswiriant FUW?
Yswiriant car, tŷ neu unrhyw fusnes

Dafydd P. Jones 01492 642683
Dwyrain Sir Gaernarfon

Buddsoddi yn eich cymuned

Mae Undeb Amaethwyr Cymru wedi ei awdurdodi a'i reoli gan Awdurdod y Gwasanaethau Ariannol.
Yng nghyd-destyn cyfryngu yswiriant o dan Rhif Cofrestru 308935



Cyfeillion Plas Pengwaith

Cynhaliwyd Cyfarfod Blynnyddol 'Cyfeillion Plas Pengwaith' yn ystod mis Tachwedd, a dyma adroddiad y Cadeirydd am y flwyddyn gyntaf o fodolaeth y Cyfeillion.

Adroddiad y Cadeirydd.

Mae'n flwyddyn bellach ers sefydlu'r Grwp ac mae'n haeddu llongyfarchiadau mawr ar ddathlu ei ben blwydd cyntaf.

Cyflawnwyd llawer yn ystod y flwyddyn a chafwyd cefnogaeth dda o'r ardal gan unigolion a chymdeithasau, ac mae'n diolch iddynt yn fawr.

Diolch arbennig i aelodau'r Grwp a'r Swyddogion am eu hymroddiad; Emlyn Baylis, Trysorydd y Grwp, Swyddogion y

Cartref, Ysgrifenyddion a Nan Owen, Ysgrifennydd y Bêl Bonws ac Eric Baylis am roi gwybodaeth ar y wê.

Cynhaliwyd sawl ymgyrch yn ystod y flwyddyn yn ariannol a chymdeithasol; yr ymgyrchoedd ariannol yn galluogi'r Grwp i wneud cyfraniad i gynnal y bws sy'n ymweld â'r Cartref yn fisol, atgyweirio y Tŷ Gwydr yn yr ardd a gwella signal teledu i'r trigolion.

Mae'r Grwp yn cyfarfod ar yr ail ddydd Mercher bob yn ail mis ac mae'n gyfle gwych i dderbyn adroddiadau o'r Cartref, y Trigolion a'r Cyfeillion. Mae croeso cynnes i bawb ymuno â ni, ac edrychwn ymlaen i'ch croesawu.

Vernon Owen

Cadeirydd Cyfeillion Plas Pengwaith.

CELF Y COPÄON
MOUNTAIN ART

STRYD FAWR
LLANBERIS 870925

Safle Gwe:
www.mountainart.co.uk
e-bost:
ginger@mountainart.co.uk

- ★ Am luniau mynyddoedd
- ★ Peintiadau
- ★ Printiadau

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i Bawb

NADOLIG LLAWEN
& BLWYDDYN NEWYDD DDA

Oddiwrth bawb yn
LONDON GARAGE
Cwm-y-glo

MOT, Teiars, Gwasanaeth ac Atgyweirio

Ar agor 9-5 Llun-Gwener
9-1- Sadwrn

Ffôn- 870234

POSH PAWS

TACLUSO CWN
Busnes Newydd Lleol

PRYNHAWNIAU neu NOSWEITHIAU 4-10

DYDD SUL 8yb-4yp
Gwasanaeth Casglu a Danfon

Ty'n Llan Uchaf, Llanddeiniolen
(01248) 671382 • 07935324193
ebost: juliaposhpaws@btinternet.com

Pryd i Bawb

Arlwyo at bob achlysur
Yn ynrhyw leoliad
Bwffe Blasus o Safon

PRIODAS
CYFARFODYDD
BEDYDD • PARTI • TE
ANGLADD
BASGED PICNIC
BWYD YN UNIG. NEU
GWASANAETH LLAWN

CERID MACKINNON

(01286) 673190
Symudol 07774 925502

DODREFN a LLORIAU PERKINS

SÊL Y GAEAF

Gwasanaeth Mesur a Ffitio

Yn Dechrau Am 10 o'r gloch
Dydd Sadwrn Rhagfyr 27

10% ODDI AR BRISIAU'R SÊL HEFO'R HYSBYSEB HWN

Rhwng Rhagfyr 27ain. a 3ydd. o Ionawr

2 Ganolfan Pen-llyn, Caernarfon, Ffôn (01286) 676040
Hefyd yn-16 Stryd Porth Mawr. Caernarfon Ffôn (01286) 673535

ECO'r Wyddfa

O'r Cyngorau Cyngor Cymuned Llanrug

Mewn Cyfarfod o'r Cyngor ar y 16fed o Dachwedd:

- Croesawyd Phillip Roberts i'w gyfarfod cyntaf a diolchwyd iddo am ei ddiddordeb a'i barodrwydd i ymuno â'r Cyngor.
- Adroddwyd fod Cyngor Gwynedd am gydweithio â Chartrefi Cymunedol Gwynedd i hwyluso'r gwaith i reoli trafniadaeth Ffordd Glanmoelyn. Adroddwyd fod Cymdeithas Tai Gogledd Cymru yn ymgymryd â'r gwaith o wella Cae Chwarae Glanmoelyn.
- Adroddwyd fod gwahoddiad wedi'i roi i Swyddog o Adran Gynllunio Gyngor Gwynedd i fynychu cyfarfod o'r Cyngor. Penderfynwyd i ail gysylltu â'r Swyddog a'i wahodd i gyfarfod Mis Ionawr.
- Adroddwyd fod y fan wen oedd wedi bod ger Gae Chwarae Cwm y Glo ers tro wedi mynd oddi yno erbyn hyn. Yn sgil penderfyniad yn y cyfarfod diwethaf fod plant yr Ysgol Gynradd yn cydweithio â Menter Fachwen i blannu blodau ac nad oedd ganddynt offer priodol i wneud y gwaith, penderfynwyd prynu offer a menyg diogelwch ar eu cyfer.
- Penderfynwyd symud ymlaen gyda'r trefniadau i osod Coed Nadolig yn Llanrug a Chwm y Glo ar y 5ed o Rhagfyr.
- Adroddwyd fod disgyblion Ysgol Brynrefail yn parhau i daflu ysbwriel ar Ffordd yr Orsaf a bod llythyr wedi'i anfon at y Prifathro. Roedd y Clerc wedi derbyn galwad ffôn ganddo yn ymddiheuro am hyn ond yn cyfeirio at y cydweithio sydd rhwng y disgyblion â'r Cyngor Cymuned drwy'r cynllun Bagloriaeth Cymru. Penderfynwyd edrych i mewn i'r posibilrwydd o ddisgyblion Ysgol Brynrefail gasglu ysbwriel oddi ar Ffordd yr Orsaf fel rhan o'u gwaith bagloriaeth.
- Penderfynwyd holi'r Cyngor Sir ynglŷn â'r bwriad o osod llinellau melyn o Tŷ Fry hyd at Ystrad ar Ffordd yr Orsaf.
- Mynegwyd pryder am gyflwr Ffordd Bryngwyn a'r diffyg llinellau melyn ar ochr y ffordd. Penderfynwyd i gysylltu ac Adain Priffyrdd Cyngor Gwynedd i geisio esboniad ar beth sydd yn mynd ymlaen yno.
- Eglurodd y Clerc y bydd angen i bob Cyngor Cymuned cael safle We y flwyddyn nesaf a bod Mantell Gwynedd yn cynnig grant i Gyngorau greu safleoedd We eu hunain. Penderfynwyd cysylltu â Chwmni Delwedd a Chyngor Tref Caernarfon am fwy o wybodaeth.
- Adroddwyd fod cyflwr Cae Chwarae Cwm y Glo yn flêr ac angen sylw. Penderfynwyd gofyn i'r Giang Cymunedol fynd yno i glirio.

- Penderfynwyd edrych i mewn i'r posibilrwydd o wneud cais am grant gan Grŵp Cynefin i wella Cae Chwarae Nant y Glyn.
- Adroddwyd fod y ddwy giât ar y llwybr ger Ogwen yn dal heb eu trwsio. Penderfynwyd gofyn i gwmni lleol eu hail osod ac anfon y bil i Swyddog Llwybrau Gyngor Gwynedd.
- Adroddwyd fod disgyblion Ysgol Brynrefail wedi bod o amgylch Maes Chwarae Nant y Glyn yn tacluso fel rhan o'i Cwrs Bagloriaeth.
- Adroddwyd fod llythyr wedi'i anfon at Brif Weithredwr Cyngor Gwynedd yn gofyn a oedd bwriad i drosglwyddo cyfrifoldebau i Gyngor Cymuned Llanrug. Yn ei ymateb dywedodd y byddai'n cysylltu â'r adrannau perthnasol a holodd a oedd unrhyw wasanaeth y byddai'r Cyngor Cymuned yn hoffi ei wneud. Penderfynwyd derbyn y wybodaeth a disgwyl i weld beth ddaw yn ôl o Gyngor Gwynedd.
- Doedd dim gwrthwynebiad i'r ceisiadau cynllunio canlynol:
Diddymu amodau rhif 7, 8 a 9 o'r Caniatad cynllunio - Tir ger Lliadiart y Rhos, Llanrug ag Estyniad un-llawr yng nghefn Bryn Manon, Llanrug
- Adroddwyd fod y brigau oedd wedi gordyfu ac yn rhwystro'r lori bin fynd at y fynwent wedi eu torri a bod y broblem wedi'i datrys.
- Penderfynwyd gwahodd y PCSO newydd i gyfarfod mis Rhagfyr i gyflwyno ei hun ac adrodd ar ei waith ac hefyd i alluogi'r aelodau ddod â materion i'w sylw.
- Trafodwyd dyfodol cofeb i goffau hogiau o Gwm y Glo a gollwyd yn ystod y Rhyfel a bod preswlydd yn holi a oedd gan y Cyngor le addas yw rhoi. Penderfynwyd mai mater i drigolion Cwm y Glo oedd hyn a byddai'r Cyngor ydd Alan Pritchard yn cysylltu a'r unigolyn i drafod eu anghenion ymhellach.
- Adroddwyd fod pryder am arafder y groesfan sy'n croesi'r briffordd ger Sgwâr Llanrug. Penderfynwyd cysylltu ac Adain Priffyrdd Cyngor Gwynedd a gofyn iddynt edrych arno ac adrodd yn ôl.
- Penderfynwyd rhoi grant o £700 i Eco'r Wyddfa a £350.00 i Eisteddfod Bentref Llanrug a Chwm y Glo. Gohiriwyd gwneud penderfyniad ar gais Dawns i Bawb a Theatr Bara Caws.
- Penderfynwyd i gysylltu â Chyngor Gwynedd i drefnu cwrs ar gyfer Cyngorwyr.
- Penderfynwyd anfon cerdyn o ddiolch at y cyn glerc am ei gwasanaeth i'r Cyngor.

Nadolig Llawn A Blwyddyn Newydd dda
oddwrth
Gwasanaeth Gwres a Plymio

Ar Gyfer Eich Holl Anghenion Gwres A Plymio
Gwaith proffesiynol o'r safon orau pob amser
Arwel Jones - 1 Cefn Cynrig • Bethel • LL55 1UW
Tel. (01248) 674927 Mobile- 07798 746718

CHIROPODYDD
GALWADAU I'R CARTREF
RICHARD THOMAS SRCh/HPC

Cysylltwch Symudol 0797 631 6487 • Tŷ 01758 612384

GERAINT OWEN
CARPEDI
CARPEDI • VINYLs • TEILS
CANOEDD O BATRYMAU I DDEWIS
A RHAI MEWN STOCK

Cil y Mynydd Waunfawr Gwynedd
A Uned 5 Gwyrfaï Mill Bontnewydd
(01286)650552 Mob. 07712779475

BOSCH Service
Car Service




www.a-v-w.co.uk
01286 673559
CIBYN IND EST. CAERNARFON LL55 2BD
SAFON UCHEL Y GALLWCH EI DRYSTIO
ARBENIGWYR AR GEIR SWEDEN A'R ALMAEN
CEIR, CAMPERS A FANIAU
AVW 

Datblygwr Cynllun Trydan yn addasu i ofynion y farchnad.

Derbyniodd yr "Eco" lythyr oddi wrth Reolwr-Gyfarwyddwr Cwmni Quarry Battery yn amlinellu newidiadau i'w cynlluniau am orsaf trydan ar safle Chwarel Fawr (Cefn Du) a Glyn Rhonwy. Derbyniyd caniatad cynllunio i ddatblygu gorsaf 49.9MW gan Gyngor Gwynedd ddiwedd 2013. Roedd y Cyngor yn derbyn na fyddai'r datblygiad yn cael effaith niweidiol ar yr amgylchedd gweladwy, ac y byddai'n hwb sylweddol i'r economi lleol yn ystod y cyfnod adeiladu ac yn yr hir dymor. Mae oes yr orsaf yn debygol o fod yn ganrif a chwarter.

Ers y caniatad, mae'r Llywodraeth wedi lansio cynllun newydd dan y Ddeddf 'Electricity Market Reform'. O ganlyniad i hyn penderfynodd y cwmni wneud cais i gynyddu allbwn yr orsaf o 49.9MW i 99.9MW. Ni fyddai'r newid hwn yn golygu dim gwahanol i'r cais sydd eisoes wedi ei ganiatau gan Gyngor Gwynedd, ar wahân i gynyddu allbwn y tyrbinau tan-ddaeinol.

Y gobaith yw y bydd y gwaith yn cychwyn ar y safle yn ystod y flwyddyn nesaf, ond oherwydd fod angen cynyddu'r allbwn, rhaid i'r cais gael ei gysidro gan Arolygydd Cynllunio sydd â chyfrifoldeb dros orsafoedd pŵer o 50MW neu fwy. Bydd yr Arolygydd yn cyd-lynu â Chyngor Gwynedd, Cadw a Chyfoeth Naturiol Cymru.

Dywedodd Dave Holmes, Rheolwr-Gyfarwyddwr Quarry Battery, ei bod yn rhwystredig gorfod mynd drwy'r broses am yr eilwaith, a hynny oherwydd cynyddu pŵer yr allbwn yn unig. Ni fydd unrhyw newidiadau eraill i'r cais cynllunio gwreiddiol, sydd eisoes wedi ei ganiatau. Ond ychwanegodd y byddai'r sgil-ffeithiau yn hynod bositif. Mae'n debygol y byddai gorsaf o gryfder 99.9MW yn cynhyrchu gwerth trethiannol i Gyngor Gwynedd o tua £600,000 yn flynyddol. Yn ychwanegol, mae Cwmni Quarry Battery wedi rhoi addewid y bydd ymddiriedolaeth annibynnol yn cael ei sefydlu i reoli cyfraniadau cymunedol. Bydd y grant sylfaenol yn £325,000, gyda thaliadau blynyddol o £15,000.

Un funud fach ...

PEDWARDIWRNODYDOLIG

Ydych chi wedi gorffen eich siopa Nadolig eto? Ynteu heb gychwyn ydych chi? Gawsoch chi'ch dal yng nghanol rhuthr gwyllt Black Friday? Oeddech chi wrth eich cyfrifiadur am oriau ar Cyber Monday? Fuo'ch chi'n crwydro'r siopau lleol ar Small Business Saturday? O'r Unol Daleithiau y daeth y tri syniad hyn y blynyddoedd diwethaf yma. Cafodd y ddau gyntaf yn sicr sylw mawr eleni ar radio a theledu ac yn y papurau newydd, ac o ganlyniad gwelwyd pobl yn heidio i'r siopau i ymladd am fargeinion ac yn gwario ffortiwn ar y We. Dylanwad y cwmnïau mawr rhyngwladol a sicrhodd bod llai o sylw wedi ei roi i'r trydydd diwrnod, ac nid syndod mai yn y Daily Post (ac nid yn y papurau mwy) y darllenais fod y Small Business Saturday i'w gynnal ddydd Sadwrn, Rhagfyr 6. Dyna'r tro cyntaf i mi glywed am y diwrnod hwn sy'n annog pobl i gefnogi eu siopau bychain lleol.

Ac mi glywais am bedwerydd diwrnod oedd yn newydd i mi, a hwnnw hefyd wedi ei fewnforio o'r America. Ond ni roed yr un sylw i hwn. Chlywais i ddim amdano ar radio na theledu: doedd o ddim mor gyffrous â Black Friday na Cyber Monday. Welais i'r un cyfeiriad ato yn y Daily Post: doedd o ddim mor bwysig â'r Small Business Saturday. A bod yn deg, ddarllenais i ddim amdano chwaith yn Y Tyst na'r Goleuad (ac arnaf fi fy hun oedd y bai am hynny yn rhannol, a minnau'n Olygydd y tudalennau cydenwadol ynddyn nhw bob wythnos!)

Ia, o'r America y daeth Giving Tuesday hefyd, ond mae'n rhaid i mi gyfaddef bod y diwrnod hwnnw wedi dod a mynd (ar Ragfyr 2) cyn i mi glywed am ei fodolaeth. Diwrnod i roi at elusennau gwahanol oedd hwn i fod. Yng nghanol y gwario, roedd hwn yn gyfle i gyfrannu at elusennau o bob math. O bosibl mai fi oedd ar fai, a bod y gweddill ohonoch wedi clywed am y diwrnod hwn ers tro. Ond doeddwn i ddim. A rhan o'r rheswm am hynny yw'r ffaith bod grym y cwmnïau mawr wedi sicrhau'r sylw pennaf i'r dyddiau masnachol, ac yn arbennig i'r dydd Gwener a'r dydd Llun. Mae'n beryg nad yw elusennau a rhoi mor ddiddorol ag elw a gwario.

Ond Giving Tuesday neu beidio, mae cyfle arbennig yng nghanol prysurdeb Gŵyl y Nadolig i gofio am eraill ac i gyfrannu at waith elusennau sy'n cyflawni gwaith ardderchog o ofalu am bobl yng nghanol pob math o anawsterau a thrafferthion.

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chi i gyd wrth i ni gofio cariad Duw yn rhoi ei unig anedig Fab er ein mwyn.

JOHN PRITCHARD

**Odyn
Copr**

Parc
Padarn

Nadolig Llawen
A Blwyddyn Newydd Dda

Ffon-871366

Nadolig Llawen a
Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth

**GRAHAM A JEAN
A PHAWB YN Y**

**PRINCE
OF WALES
LLANBERIS**

870708

Cwrw Blasus
Croeso Cartrefol



Nadolig Llawen
A Blwyddyn Newydd Dda

Oddiwrth John Hughes Jones

Y DYN CIG
BRYN AFON LLANRUG

675190 • 673188 Symudol-07798 718188

RHOSTIO MOCHYN

AR GYFER POB ACHLYSUR • PARTION • PRIODASAU
PEN BLWYDD • BEDYDD • DAWNS • GWYLIAU
CIG O FFERMYDD LLEOL • PARTION RHWNG 40-400!

**DEWCS MAE
O'N FLASUS**

Cyfarchion y Nadolig Estynnir cyfarchion y Nadolig a Blwyddyn Newydd Dda i holl drigolion y pentref, yr ardal a darllenwyr yr Eco gan obeithio am iechyd da i bawb ar gyfer 2015. Estynnir hefyd ein cofion at unrhyw un sydd yn yr ysbyty neu yn gwella wedi triniaeth diweddar. Gofynnir yn garedig, os oes gan unrhyw un hanes i'w adrodd, iddo gael ei yrru mewn da bryd i'r gohebydd.

Dymuna'r Cynghorydd Elfed Wyn Williams, Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i holl drigolion y pentref a'r ardal a diolch iddynt am eu cefnogaeth yn ystod y flwyddyn.

Dymuna Elizabeth Williams, 14 Rhydfadog, Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'w theulu, ffrindiau a chymdogion gan na fydd yn gyrru cardiau Nadolig eleni.

Diolch Gan na fydd Mrs Beryl Griffith, 5 Maes Gwylfa, yn danfon cardiau Nadolig eleni, hoffai ddymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'w theulu, ffrindiau a'r gofalwyr a diolch o waelod calon am bob caredigrwydd yn ystod y flwyddyn.

Diolchiadau Dymuna Mrs Ann Owen, 48 Rhydfadog, ddiolch am y cardiau a'r dymuniadau gorau tra bu yn Ysbyty Gwynedd ac ar ôl iddi ddod adref. Diolch arbennig i'w theulu. Diolch yn Fawr.

Cymdeithas Undebol Deiniolen Cynhaliwyd y Gymdeithas yn Nhŷ Elidir, Tachwedd 28ain, dan lywyddiaeth y Parch J Pritchard. Ein gŵr gwadd oedd Dr Huw Roberts, Caernarfon, cyn feddyg teulu yn y Waunfawr. Cafwyd sgwrs ganddo am y gweithfeydd copr ar Fynydd Parys, Ynys Môn. Roedd yr hanes yma yn ddiarth iawn i'r

rhan fwyaf ohonom. Diolchwyd iddo yn gynnes iawn gan Mr Brian Price.

Merched y Wawr Croesawyd aelod newydd arall i ymuno â ni yn ein cyfarfod diwethaf sy'n gwneud cyfanswm o naw aelod newydd ac roedd yn braf cael bwrllwm rhai fengach yn ein cyfarfod. Cydymdeimlwyd ac Ann, ein llywydd, yn ei phrofedigaeth o golli nai yn annisgwyl, sef Llewelyn Lloyd Roberts o Lanberis.

Cawsom i gyd gopi o fantolen ariannol y gangen gan Margaret, ein Trysorydd. Diolchwyd iddi am ei gwaith trwyadl fel arfer. Ein gwraig wadd oedd Jean Baglin o Drefor a ddangosodd sut i wneud trefniant o flodau a dail bytholwyrdd ar gyfer y Nadolig. Yna cawsom i gyd gyfle i wneud ein trefniant ein hunain ac roedd cryn frwdfrydedd. Diolchwyd i Jean gan Beryl, un o'n aelodau newydd.

Ar ddiwedd y noson, cafwyd paned a bara brith wedi ei ddarparu gan Ann a Marian. Tynnwyd y raffl ac roedd Jean wedi rhoi'r tri trefniant a wnaeth fel gwobrau i'r raffl.

Cinio Nadolig fydd nesaf genym yn Nhŷ Golchi.

Llwyddiant Rhyngwladol Cafodd un o bobl ifanc y pentref yr anrhydedd o gynrychioli Cymru mewn cystadleuaeth 'Pool' rhyngwladol yng Ngogledd Cymru yn ddiweddar. Mae Lee Williams yn 14 oed, ag felly mae'n rhaid fod ganddo dalent aruthrol iddo gael ei ddewis mor ifanc. Fe chwaraeodd gemau sengl, fel aelod o dîm Cymru ac fel pâr, fe gurodd 25 o 33 gêm yn y gemau unigol sydd yn gryn lwyddiant. Pob dymuniad da i Lee i'r dyfodol, dalier ati a gobeithio y bydd yn

cael y cyfle eto i gynrychioli ei wlad.

Côr Cynfi Ganol Tachwedd cafodd y côr wahoddiad i Gaerdydd i recordio rhaglen Nadolig 'Am Ddrama' gyda Wynne Evans. Cafwyd llawer iawn o hwyl a chwerthin a bydd y rhaglen yn ymddangos ar y teledu ar yr 20fed o Ragfyr. Mae wedi bod yn flwyddyn brysur i'r côr gyda sawl uchafbwynt, ac mae'r aelodau i gyd yn edrych ymlaen i weld beth ddaw nesaf yn y flwyddyn newydd. Mae'r croeso yn parhau i unrhyw un a fyddai â diddordeb mewn ymuno â ni. Hoffai'r aelodau ddymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'r pentref i gyd a diolch am y gefnogaeth barhaus.

Cyngerdd y Band Ieuencid Roedd festri Capel Ebeneser dan ei sang i gyngerdd hynod safonol gan y band ieuencid o dan arweiniad Osian Tomos, a'r band iau o dan arweiniad Llio Tomos. Roedd yn agos i drigain o bobl ifanc a phlant yn cymryd rhan. Yn ogystal ag eitemau gan y ddau fand, cafwyd eitemau unigol gan Twm Herd (corn) a chaneuon gan Emyr Lloyd Jones. Y cyfeilydd oedd Angharad Wyn Jones. Canwyd dwy garol i gyfeiliant y band gan y gynulleidfa.

Enillwyr y tlysau eleni oedd: Gwobr Goffa Mr a Mrs O.H. Jones: Bethan Mault a Twm Herd.

Gwobr Goffa Mr a Mrs Eifion

Williams: Jac Williams.

Daeth Dylan Williams ymlaen ar ran Ysgoloriaeth y diweddar Iwan Williams a chyhoeddodd fod pump ymgeisydd arbennig wedi ymgiprys am y wobwr a'r enillydd oedd Tomos Efans (corn fflwgal). Bydd Tomos yn elwa trwy gael gwersi unigol proffesiynol i hyrwyddo ei yrfa. Cyflwynwyd y rhodd iddo gan Valmai Williams, mam Iwan, a Hefin Goronwy Jones a hyfforddodd Iwan o ddyddiau plentynod yn y band.

Soniodd Osian Tomos, yr arweinydd, fod y seindorf ieuencid wedi cael blwyddyn lwyddiannus a hynny trwy gystadlaethau a digwyddiadau, gan gynnwys dosbarthiadau meistr. Yn 2015 bydd y band iau yn derbyn dosbarth meistr pan ddaw Dylan Williams a John Glyn Jones o fyd y bandiau i roi hyfforddiant iddynt. Ymwelodd Siôn Corn â'r noson a rhannwyd anrhegion ganddo i'r plant a'r ieuencid.

Diolchodd Osian a Llio i'r rhieni i gyd am eu cefnogaeth gyson yn ystod y flwyddyn ac i bawb a fu'n cynorthwyo yn yr ymarferion. Diolch hefyd am gymorth pawb a wnaeth y cyngerdd blynyddol hwn yn llwyddiant.

Hoffai Alun, Wendy, Tomos a'r teulu oll ddatgan ei diolch i bwyllgor Ysgoloriaeth Iwan Williams am wobrwyo Tomos gyda'r Ysgoloriaeth yma, sydd yn agos iawn i'w calonnau.

NOSWYL Y NADOLIG

Yn Eglwys Crist Llandinorwig ar Noswyl y Nadolig, nos Fercher, 24 Rhagfyr am 6p.m. bydd Cymun Cymraeg yr Wyl. Gwasanaethir gan y Canon Idris Thomas, Glanrafon. Croeso cynnes i bawb o'r plwyf a'r ardaloedd.

Nadolig Llawen
A BLWYDDYN NEWYDD DDA
Oddiwrth
H. E. HUGHES
A'i Feibion
Bwthyn Gadlas Llanberis
GWERTHWR GLO
OLEW GWRES CANOLOG
(01286)
870444




SFP
Nadolig Llawen
a Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth bawb yn
SNOWDONIA FIRE PROTECTION
YR HEN EFAIL, WAUNFAWR
Ffôn: (01286) 650235
Hefyd: Uned 10 TIR LLWYD, BAE CINMEL (01745) 360445
OFFER DIFFODD TÂN — masnachol ac i'r cartref
OFFER CANFOD MŴG ar gyfer y cartref
GOLEUADAU ARGYFWNG
LARWM TÂN, a llawer mwy
i'w gweld yn ein swyddfa.



Parhad DEINIOLEN

Gŵyl Deiniolen a'r Cylch

Cafwyd noson hynod lwyddiannus yn rhoi golau Nadolig y pentref ymlaen eto eleni. Daeth nifer fawr o drigolion y pentref i glywed Côr Cynfi ac aelodau'r band yn canu a chwarae carolau Nadoligaidd gan ymuno i gyd-ganu yn ogystal. Brenhines yr Ŵyl, Alis Mair Jones, gafodd y cyfrifoldeb o roi'r golau ymlaen, ac fe wnaeth y swydd bwysig hon yn berffaith, diolch iddi. Hoffai'r Ŵyl ddiolch i bawb a gefnogodd y noson ag a gyfran-nodd tuag at wneud y noson mor llwyddiannus.



Ysgoloriaeth Iwan Williams

Pleser yw cael cyhoeddi mai enillydd yr Ysgoloriaeth am 2015 yw Tomos Efans o Fethel.

Mae Tomos yn chwarae'r flugel ym Mand Ieuencid Deiniolen, a bellach yn aelod o'r 'band mawr' ac wedi cymryd rhan yn ei gystadleuaeth gyntaf ddim ond 3 wythnos yn ôl. Mae Tomos ar hyn o bryd yn gweithio tuag at ei arholiad Gradd 6 ac hefyd yn aelod o Fand Ysgol Brynrefail ac o Fandiau Chwyth a Phres Gwynedd. Mae'n uchelgaïs ganddo i ddod yn aelod o Fand Pres Ieuencid Cymru yn y dyfodol agos.

Roedd yr ymateb i'r broses ymgeisio yn arbennig iawn ac roedd darllen pob ffurflen gais yn brofiad ynddo'i hun. Roedd cael gweld, nid yn unig beth ydi llwyddiannau presennol rhai o'r bobl ifanc yn Neiniolen yn braf, ond roedd cael darllen eu planiau a'u huchelgaïs ar gyfer y dyfodol yn arbennig iawn ac yn dysteb i'r gwaith sydd yn cael ei wneud gan bawb yn dysgu ac yn magu'r talentau amlwg yma. Ac mae un peth yn saff, os na wneith dim ond llond llaw ohonynt wireddu eu gobeithion, yna'n sicr mae na ddyfodol disglair iawn o flaen cymdeithas Band Deiniolen.

Nid oedd gan y panel dewis, sy'n cynnwys cynrychiolaeth o'r band ac o deulu a ffrindiau Iwan, unrhyw feini prawf ar gyfer dewis yr enillydd – aethant i mewn i'r broses yn hollol ddi-duedd yn y gobaith y byddai'r enillydd yn sefyll allan. A gwir yw dweud fod 5 cais wedi dod i'r amlwg. Heb enwi neb, roedd y 5 cais yma yn gwbl wahanol i'w gilydd ac roedd gan bob un ei gryfderau ei hun. Er enghraifft roedd rhai yn chwaraewyr profiadol a llwyddiannus yn barod ond hefo'r dymuniad o ddatblygu mwy a chario ymlaen yn y byd proffesiynol, lle roedd rhai wedyn yn chwaraewyr eitha newydd ond gyda dymuniadau positif iawn ynglŷn â'u dyfodol a'u dymuniadau hwythau. Ond, yn wir roedd pob un cais a ddaeth i law yn gosod allan yn glir eu syniadau ynglŷn â be fasa nhw'n ei wneud gydag arian yr Ysgoloriaeth, ac mi roedd hynny'n braf iawn i'w weld. Gobeithio na fydd y ffaith fod y gweddill heb ennill yn eu hatal rhag ymgeisio eto yn y dyfodol.

Er mai gwobr ariannol i unigolyn fydd yr Ysgoloriaeth o hyn ymlaen,




Valmai Williams, Tomos John Efans a Hefin Goronwy.

cafodd Tomos dlws arbennig a gynlluniwyd gan un o ffrindiau Iwan, sef Carwyn Price, tlws a gyflwynwyd i Tomos yn ystod Cyngerdd Blynnyddol y Seindorf Ieuencid yn gynharach heno gan Val, mam Iwan, a'r un oedd yn gyfrifol am y syniad o greu'r Ysgoloriaeth, sef Hefin Jones, un o diwtoriaid cyntaf Iwan.

Wrth i'r chwech aelod o'r pwyllgor drafod pob cais, ac wedi iddynt ddewis rhestr fer, daeth cais Tomos yn amlwg i bawb a dyma linell o gais buddugol Tomos, brawddeg sydd yn crynhoi popeth da ni'n gobeithio fydd yr Ysgoloriaeth yn ei gyflawni yn y dyfodol, drwy roi'r ysbrydoliaeth i'r bobl ifanc ma ddilyn llwybr llwyddiannus Iwan:

'Roeddwn wedi penderfynu rhoi'r gorau i chwarae, ond newidiodd Iwan fy meddwl mewn 'masterclass' yn ysgol Deiniolen. Ef wnaeth fy ysbrydoli i barhau ac rwyf mor falch fy mod wedi dyfalbarhau a gwrando arno.

Llongyfarchiadau mawr Tomos.



Ar ben arall i'r lein

Wel dyna ni blwyddyn arall heibio ac erbyn bydd y pwt yma yn cael ei ddarllen bydd ein blwyddyn ninnau fel cymdeithas wedi cael ei chloi a byddwn yn dechrau ar flwyddyn newydd gyda'n gweithgareddau. Bydd y pwyllgor blynyddol y tu cefn inni, wedi ei gynnal ar 11ed Rhagfyr. Does dim newidiadau i'w cynnig gan y cyfarwyddwyr gan fod pethau i weld yn sefydlu eu hunain yn dilyn y problemau llygru sydd wedi taflu planced negyddol dros yr holl bysgodfeydd y ers oddeutu pum mlynedd nawr. Mae'r gwelliant mwyaf syfrdanol i'w weld drosodd ar yr Afon Llyfni ble 'roedd nifer y sewin y gorau i mi weld er dechrau 1990'au. 'Roedd yr eog hefyd yn fwy niferus ym Mro Lleu gyda'r eog trymaf o ddyfroedd y gymdeithas wedi dod i enwair Dylan Roberts o Benygroes. 'Sgodyn braf am 10pwys 2owns. Dylan fydd deilydd Tarian WJ. Williams am y flwyddyn nesaf.

Bydd tlysau eraill y gymdeithas wedi eu cyflwyno i'r canlynol:

Tlws Tomi Lovell i Hefin Hughes, Caeathro, am ei waith o drefnu cynllun deori wyau eog a'u rhyddhau i'r Afon Gwyrfaï gyda Ysgol Bontnewydd.

Tarian J.V. Evans i Iolo Jones, Deiniolen, am y sewin trymaf o ddyfroedd y clwb - 'sgodyn 3pwys 8 owns o'r Seiont. Camp arbennig am mai dyma'r tymor cyntaf i Iolo droi ei law at 'sgota nos.

Tarian Garmon (Oscar Evans) i Tomos Morgan, Waunfawr am y 'sgodyn trymaf gan aelod dan 18 oed. Sewin 3pwys eto o'r Seiont.

Mae'r sewin yn 'sgodyn poblogaidd dros ben, ac yn enw sy'n adnabyddus drwy'r byd pysgota ond, wrth gwrs, yn y rhan yma o Gymru yr enw sydd ar lafar yw'r gwyniedyn, a mi 'dwi'n cael tipyn o boen clust ar adegau gan rai mai dyma'r enw y dylwn ddefnyddio wrth gyfeirio at y pysgodyn hardd yma yn yr Eco, felly fel addewid am y flwyddyn newydd gwyniedyn fydd y gair. Ond cofiwch mae addewidion yn cael eu gwneud i'w torri.

Fel sy'n ddigon cyfarwydd i pawb sy'n dilyn helyntion Llyn Padarn 'roedd addewid wedi ei wneud gan Gyfoeth Naturiol Cymru yn ôl ym mis Mai y buasai ei adroddiad ar achosion a phwy oedd yn gyfrifol am lygru'r dyfroedd yn cael eu chyhoeddi yn ystod Tachwedd eleni. Wedi delio gyda'r corff yma a'i ragflaenwyr am dros 34 o flynyddoedd 'roeddwn reit ddrwgdybus y buasai hyn yn cael ei gyflawni. Do 'rwyf wedi cael fy ngalw yn hen sinic ac y dylwn gael mwy o ffydd yng ngweithredoedd y corff newydd 'ma - ond yn anffodus mae'r hen sinic yn o agos i'w le, gan ein bod nawr yn agosau at y Nadolig a does

dim ond distawrwydd llethol yn ymestyn o Lywodraeth Cymru hyd at swyddfeydd CNC ym Mangor. Mae'r distawrwydd, wrth gwrs, yn golygu nad oes dim golwg o'r adroddiad. Efallai y cawn ddyddiad cyhoeddi fel un o addewidion blwyddyn newydd y cyrff yma sydd i fod i'n gwarchod.

Un mater arall sydd werth ei chyhoeddi yw fod cais yn cael ei wneud gan Gorff Afonydd Cymru i un o gronfeydd Dŵr Cymru am arian yn agosau at £200,000 i redeg cynllun o archwilio am bedair blynedd ar be yw'r achosion problemau'r torgoch. Mae rhai o wyddonwyr blaenllaw y maes pysgodfeydd ynghlwm â'r cais - byddent wrth gwrs yn cael eu talu yn helaeth am eu gwaith. Fel hen sinic dyma be sy'n rhedeg drwy fy meddwl: pedair blynedd arall o ddisgwyl, mae'n debygol y munud fydd yr arian yma wedi ei gymeradwyo bydd adroddiad CNC yn cael ei chyhoeddi gyda chymal - gan fod archwiliad manwl arall ar waith bydd yn rhaid disgwyl pedair blynedd arall cyn dod i benderfyniad pendant. Ond ble oedd y gwyddonwyr yma wedi bod gyda'u sylwadau neu eu beirniadaethau pan oedd Padarn y dirywio drwy ddifaterwch yr awdurdodau dros y blynyddoedd yn arwain at 2009.

Heb ddim cost i unrhyw un dyma yw dedfrydiaeth y gymdeithas ar broblemau y llyn a'r torgoch:

- 1 Llygredd carthffos o waith Llanberis ac o arllwysfa ddi-restredig dan berchenogaeth Dŵr Cymru.
- 2 Colli tiriogaeth claddu a magu y torgoch drwy lygru gro cyrion y llyn.
- 3 Torri i ffwrdd Llyn Peris o afonydd Bala, Dudodyn a rhannau o'r Hwch a Peris.
- 4 Tyllu allan mannau claddu'r Afon Peris ger pentref Nant fel rhan o hwyluso adeiladau gorsaf Bŵer Dinorwig.

Dyna chi, mewn ychydig eiriau a heb ddim cost nac archwiliad pedair blynedd, beth yw gwreiddiau yr holl broblem. Rhowch sylw i rhain a buan iawn fuasai pethau yn dod at eu hunain. Ond wrth gwrs tydw i ddim yn wyddonydd, ond rwy'n gyfarwydd gyda dyfroedd fy mro.

Dyma ddigon o'r ochr dywyll a ninnau yn agosau at dyddiau pwysicaf y flwyddyn, sef gŵyl y geni. Edrychwn i gyd ymlaen at yr Ŵyl a'r flwyddyn i ddod gyda agwedd bositif, yn llawn gobaith y cawn weld gwelliant mawr yn nyfroedd ein bro. Felly dymunaf i chwi oll Nadolig hapus a dedwydd a Blwyddyn Newydd lewyrchus dros ben.

Nadolig Llawn a Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth bawb yn

ARVONIA



- Tocynnau Anrheg Gwyliau ar gael yma
- Gofynnwch am ein 'Brochure' Gwyliau Newydd

**Y Sgwâr, Llanrug
Caernarfon, Gwynedd LL55 4AA**

Ffôn: 01286-675175 Ffacs: 01286-671126

E-bost: info@arvonias.co.uk
Gwefan: www.arvonias.co.uk



**Nadolig Llawn
A Blwyddyn Newydd Dda
i holl ddarllenwyr yr Eco**

**Hoffwn ddiolch i'n
cwsmeriaid lleol am eu
cefnogaeth trwy gydol y
flwyddyn!**



**Caffi Caban, Yr Hen Ysgol, Brynrefail
www.caban-cyf.org caban@caban-cyf.org
01286 685 500 (caffi) 01286 685 462 (swyddfa)**

Caban cyf

Chwaraeon

Y GORAU O DAIR

Dyna fydd y sefyllfa rhwng timau pêl-droed Llanrug a Llanberis dros y mis nesaf. Dros gyfnod yr Wyl bydd dwy gêm ddarbi yn y gynghrair. Bydd rhain yn gemau pwysig gyda hogiau Eithin Duon yn chwilio am bwyntiau i gynnal eu rhediad diweddar i fyny'r tabl. Angen pwyntiau i ddringo o'r gwaelodion fydd hogia Ffordd Padarn. Yna gyda'r trimings wedi eu cadw daw y gêm fawr ar Sadwrn olaf mis Ionawr. Ar Gae Eithin Duon bydd y ddau darw yn mynd benben ym mhumed rownd Tlws C.P. Cymru. Dyma'r gêm y gobeithiais amdani y mis diwethaf. Mae'n siwr fod y bygwth wedi dechrau yn barod. Braff o beth fuasai cael dyfarnwr Cymraeg ei iaith ar gyfer y gêm hon.

Yn y rownd flaenorol cafodd Llanrug fuddugoliaeth dda draw yng Nghwalchmai. Gwelais fuddugoliaeth Llanberis o 4-1 yn erbyn Four Crosses o'r Canolbarth. Duw a wŷr beth fyddai'r sgor wedi bod gydag ychydig o bwylllo. Gwnaeth golwr yr ymwelwyr sawl arbediad rhyfeddol, trawyd ffram y gôl droeon, a methu cic o'r smoty. Rhaid cymryd y cyfleuon hynny ar Eithin Duon.

Gyda llaw clywsom son am Didi Llanberis droeon. Wel, mae Brasiliad arall yno bellach. – Guto Llywelyn. Yn aml dangosodd ei ddawn yn crymanu ciciau rhydd o gongl y blwch cosb i gorneli y rhwyd. Rhybudd i amddiffynwyr Llanrug.

Llongyfarchiadau hefyd i'r Waunfawr ac ail dîm Llanberis ar gyrraedd rownd gyn-derfynol Cwpan Canolradd yr Arfordir. Braff fuasai cadw'r ddarbi honno tan y rownd derfynol. Diddorol oedd gweld cylch wedi ei gyflawni gydag enw Marcus Orlik ymysg sgorwyr rheolaidd ail dîm Llanberis. Hawdd cynnau tân ar hen aelwyd.

ANRHEGION SION CORN 2014

1. Digon o wlaŋ cotwm i gadw Gareth Bale yn rhydd o anafiadau cyn gemau Cymru.
- 2) Rhif ffôn Trefor Foulkes i glwb Pêl-droed Caernarfon rhag ofn bydd angen ail adeiladu wal.
- 3) Map i gefnogwyr Bangor i'w hatgoffa fod Caernarfon, Porthmadog, Caersws, Conwy, Mold Alex, Rhaeadr a Llanidloes wedi bod yn yr un sefyllfa â nhw.
- 4) Peiriant darganfod celwyddau i ni gael gwybod yn iawn gan yr 'awdurdodau' beth sy'n ymddangos yn gwynion rhesymol gan bysgotwyr yr ardal.
- 5) Apps crand i ddilynwyr ein timau pêl-droed lleol fel y gallant ddanfôn cyfraniadau i Wefan yr Eco.
- 6) Gwobr y Tebot Aur i griwiau cytiau tē Eithin Duon a Ffordd Padarn. Safon go iawn.
- 7) Gwellhad sylweddol yn y dull Band Eang yn yr ardal fel bo'r Golygydd Chwaraeon yn gallu derbyn y llu o straeon fydd yn llifo ato yn 2015.
- 8) Tipyn o weledigaeth i Undeb Rygbi Cymru i ail asesu prisiau tocynnau gemau rhyngwladol. Eithrio nid denu y gwir gefnogwr mae'r sefyllfa bresennol.

Mis o Redeg Amrywiol.

Daeth y tymor rhedeg mynydd i ben gyda Ras Penmaenmawr ddiwedd Tachwedd. Dyma un o rasys mynydd hynaf gogledd Cymru, ac eleni oedd y 40fed tro iddi gael ei chynnal. A daeth llwyddiant i redwyr y fro, gyda Mathew Roberts (Llanberis) yn ennill, Dylan W. Jones (Deiniolen gynt) yn drydydd (ac yn ail dros 40 oed), a Hugh O'Donnell (Llanberis gynt) yn bumed.

Yn hanner Marathon Conwy y rhedwyr hŷn ddaeth i'r amlwg, gyda Rhys ab Elwyn (Ysgol Gwaun Gynfi) yn ail dros 50 oed ac Arwel Lewis (Bethel) yn bumed yn yr un adran. Yn gwahanu'r ddau ar y llinell derfyn roedd Huw Owen (Llanrug). Roedd llai na phedwar munud yn gwahanu'r tri rhedwr, a gorffennodd pob un ohonynt o fewn y 100 rhedwr cyntaf.


Math newydd o ras yn yr ardal hon yw Parkrun Penrhyn, sy'n cael ei chynnal ar dir Castell Penrhyn ym Mangor. Does dim angen tâl cystadlu; dim ond troi i fyny ar y diwrnod – a rhedeg. Mae'n cael ei chynnal yn wythnosol, bob bore Sadwrn, ac amser pob rhedwr yn cael ei gofnodi. Ras sy'n gymysgfa o lwybrau, ffordd a thrawsgwlad yw hon, ac mae'n rhoi profiad gwerthfawr i'r rhai sydd ar fin cychwyn rhedeg yn gystadleuol neu hyd yn oed am droi allan i gyd-redeg yn gymdeithasol. Yn y drydedd ras roedd cant ac ugain yn cystadlu, gyda Mathew Roberts (Llanberis) yn gyntaf, Phil Lynes (Llanrug) yn drydydd a Huw Owen (Llanrug) yn chweched. Yn y bedwaredd ras, daeth Phil Lynes yn ail; Noel Craine (Llanberis) yn seithfed (a chyntaf dros 50 oed); Arwel Lewis (Bethel) yn drydydd ar ddeg (a chyntaf dros 55 oed). Bronwen Jenkinson (Waunfawr) oedd yr ail ferch, a Maggie Oliver y ferch gyntaf dros 65 oed.

Ras Hwyl Nadolig Rhedwyr Eryri.

Bydd y Ras Hwyl yn cael ei chynnal yn Llanberis, fel arfer, ar ddydd Sul, 21ain o Ragfyr. Rhaid cofrestru yng Ngwesty Fictoria, a bydd y ras yn cychwyn am 11.00 y bore. Y tâl am gystadlu fydd £5, sy'n cynnwys cawl a mins pei ar ddiwedd y ras. Mae cystadleuaeth gwisg ffansi a dyfalu amser Sion Corn yn rhan o'r hwyl hefyd. Does dim angen i chi fod yn aelod o unrhyw glwb rhedeg. Croeso i bawb redeg o amgylch Llyn Padarn. Bydd rasys byrrach i'r plant.

CWIS NADOLIG 2014

- 1) Beth yw'r cysylltiad rhwng 'fan goch' a Marathon Eryri 2014?
 - 2) Ar pa dîm pêl-droed rhyngwladol mae Iolo Huws o Fethel yn gapten?
 - 3) Pa dri chwaraewr sydd ar frig rhestr sgoriwyd pwyntiau gemau rhyngwladol rygbi?
 - 4) Enwch sawl LLAN arall sy'n chwarae yn yr un adran pêl-droed a phrif dimau Llanrug a Llanberis?
 - 5) Pa ddau athletwr o Gymru a waharddwyd rhag cystadlu yng Nghemau'r Gymanwlad 2014?
 - 6) Pa joci enillodd y dwbwl eleni drwy ennill y Grand National a Chwpan Aur Hennessy?
 - 7) Pa chwaraewr ennillodd bencampwriaeth Agored Snwcer Cymru yn 2014?
 - 8) I ba sir mae Mathew Maynard wedi ei benodi fel hyfforddwr criced?
 - 9) Pa dîm criced rhyngwladol sy'n chwarae eu gemau cartref yn y 'Caketin'?
 - 10) Ar wahân i Gareth Bale, pwy yw'r ddau chwaraewr arall i sgorio i Gymru ym Mhencampwriaeth Pêl-droed Ewrop eleni?
- MAE'R ATEBION AR WAELOD TUDALEN 20.



Gwesty Dolbadarn
Llanberis
Nadolig Llawen
Oddiwrth Aneuryn a'r Staff
Ffon-(01286)-872277



grid76
dylunio graffeg/graphic design
darlunio/illustration
animeiddio/animation
graffeg arddangos/display graphics

- Cardiau Busnes
- Arwyddion
- Graffeg ar Gerbydau
- Gwefanau a mwy...

Llanrug 07766956673 gwyndaf@grid76.co.uk
gwasanaeth dwyieithog llawn/fully bilingual service

Wembley ni...

Caeau Pel-droed Bethel

Efallai i chwi gofio i mi gyfeirio at y nifer o dimau lleol a frithai y Bangor and District League yn y 40a'u. Gofynnais ble roedd meysydd y timau yma. Wele, un yn ymateb i'r cais. Dan y ffugenw 'Yr hen, hen giciwr' cefais erthygl ddifyr yn olrhain hanes timau pêl-droed Bethel yn y cyfnod hwnnw. Diolch iddo. Digwyddais sôn am y stori wrth Dewi Jones, ac ychydig yn ddiweddarach cefais ddarlun o Gae Bryn Cottage fel y mae heddiw. Gadawaf i'r 'hen giciwr' ein tywys yn ôl dros gefnen amser.

"Cae Bryn Cottage oedd y 'Wembli' cyntaf i mi gofio. Yno deuem yn llafnau i chwysu a breuddwydio. Hogiau pentref yn bencampwyr byd. Rhaid oedd symud pan benderfynodd Mr. Griffith, Y Bryn fod angen troi'r tir. O fewn dim o amser cawsom lain o dir gan Dafydd Thomas, Tyddyn Berth. Ar y darn tir hwn mae clwb Ieuencid Bethel yn chwarae erbyn hyn. Gyda gofynion amaeth fel 'roedd hi, symud a chwilio fu raid unwaith eto. I'r adwy y tro hwn camodd Miss Jennie, Cefn Isaf. Sefydlog o'r diwedd. Sgersli bilif! Gadawodd rhywun y giat yn llydan agored a fe grwydrodd y defaid i gyd i'r lôn fawr. Fel y defaid, allan a ni yn ddi-gorlan unwaith eto.

Y noddwr nesaf oedd Sam Jones, Cefn, a dyma lain o dir gwastad. Ateb breuddwyd o'r diwedd – ond na! Rhyw noson a'r chwarae yn ei anterth rhuthrodd hwch i ganol yr hogia. Cynhyrfodd un o'r hogiau, ac i amddiffyn ei hun trawodd yr hwch hefo bat criced! Dyna'r hwch drwy'r siop unwaith eto!

Symud eto, i lain o dir ger Gongl Ddu yn Saron. Mae'r cae hwnnw heddiw dan dai Stad Bro Eglwys. O'r diwedd cafwyd cyfnod sefydlog pan symudwyd wedi fawr o amser i gae Owen Owen, Tŷ Cerrig ac yno bu cryn sefydlogrwydd. Ar y cae hwn y chwaraeodd tîm y Bethel Lions. Mae'r cae hwn bellach dan dai Stad Y Ddôl.

Daw i gof rhai o'r hogia a giciai'r bêl yn y dyddiau hafaidd hynny. Glyn Minawel, Gwilym Pwmp, Wil Bach Erw Bian, Robin Penrhos, Eurwyn Lloyd, Glyn Richards, Gwyn Dôl Erw, Evie Thomas, Ifor Wern, Hughie Jos, Hywel ac Eddie Cremllyn, Huw Emrys, Robin Wyn, Eifion Bach a Huwi Huws Ysgoldy."

Diolch i'r Hen Giciwr am ymateb. Y mae erthygl fel hyn yn rhoi cyfiawnhad dros gynnal Papur Bro. Y mae hefyd yn pwysleisio pwysigrwydd cynnal enwau hen gaeau. Rwy'n siwr fod lluo o storïau cyffelyb yn y pentrefi eraill. Danfonwch air.



RAS HWYL NADOLIG CLWB RHEDWYR ERYRI

Gwesty'r Fictoria, Llanberis

Dydd Sul, Rhagfyr 21ain am 11.00 am

Cofrestru o 9.30 am

Oedolion £5 Plant dan 14 oed £2 – yn cynnwys cawl, bara a mins pei

- Gan gynnwys raffl enwog Mike Blake!
- Gwobrau i'r oedolyn a'r plentyn gorau mewn GWISG FFANSI. (nid yn orfodol!)
- Gwobr i'r un sy'n dyfalu amser rhedeg Sion Corn

**Am fwy o wybodaeth ffoniwch Mike ar:
01286 831115 / 07778145144**



Gafael Llaw
Yn cadi arian i gefnogi plant o faes cancer
Raising money for children with cancer

**Ras Sion Corn
Caernarfon Santa Run**

Ras hwyl 5k + 1k ras plant / 5k fun run plus 1k kids race
11.30 or 'gloch / o'clock
21 o Rhagfyr / December
Clwb Rygbi Caernarfon Rugby Club

Siwt Sion Corn am ddim i bawb / Free Santa Suit for every entry
+ panad a mins pei / Tea & Mince pie
+ Adloniant Nadolig / Christmas Entertainment + Seindorff Arian Llanrug

I gofrestru a fwy o fanylion
To register and for more details
www.gafael-llaw.co.uk



Holl elw yn mynd at elusen
All Proceeds to charity
**ward dewi
alder hey
cllic sargent**

Nadolig llawen i chwi oddi wrth yr adran chwaraeon